

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

Chwefror 2023

1. Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Y cefndir

2. Ar 13 Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24, gan nodi'r dyraniadau ar gyfer prif grwpiau gwariant y gyllideb, ei chynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer 2023-24 a'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2024-25. Mae naratif y gyllideb ddrafft, gyda'i is-deitl "Cyllideb mewn cyfnod anodd", yn disgrifio'r gyllideb ddrafft fel:

"...un o'r rhai anoddaf yr ydym erioed wedi'i gwneud ac mae'n adlewyrchu'r storm berffaith o bwysau economaidd a chyllidebol sy'n wynebu Cymru".¹

3. Mae'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i wynebu pwysau sylweddol sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19, ôl-groniadau amseroedd aros, gweithredu diwydiannol, a mwy o alw yn ystod gaeaf 2022-23. Esbonnir yn naratif y gyllideb bod blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o ddiogelu gwasanaethau rheng flaen a'i huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £165 miliwn i GIG Cymru ar gyfer ymateb i bwysau gofal brys a gofal argyfwng, lleihau amseroedd aros a thrawsnewid y ffordd mae gofal yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, nodir:

¹ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb ddrafft 2023-24: Cyllideb mewn cyfnod anodd](#), Rhagfyr 2022, t.ii



"Hyd yn oed gyda'r codiad hwn mewn cyllid, er hynny, bydd dewisiadau anodd i'r GIG wrth iddo geisio diogelu gwasanaethau rheng flaen yn wyneb pwysau chwyddiant uchel yn ogystal â chostau ynni cynyddol".²

4. Cyfeirir yn naratif y gyllideb at ofal cymdeithasol fel un o feysydd allweddol gwasanaethau awdurdodau lleol sy'n cael eu heffeithio gan chwyddiant a chostau ynni cynyddol. Gan nodi bod talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth benodol, ychwanegir hefyd:

"Byddwn yn parhau i wneud ein gorau glas i gefnogi'r awdurdodau lleol drwy'r cyfnod heriol hwn ac i sicrhau eu bod yn dal yn gynaliadwy yn y dyfodol. O ganlyniad i'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud, rydym yn darparu £227m yn ychwanegol yn 2023-24 a £268m yn 2024-25 i'r setliad llywodraeth leol; mae hyn yn adeiladu ar y cyllid a amlinellwyd gennym fel rhan o'n Hadolygiad Gwariant 2022, sydd bellach yn darparu £1bn hyd at 2024-25".³

Dull o gynnal gwaith craffu

5. Mae ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24 wedi ei lywio gan:

- Ystyried y themâu trawsbynciol sydd wedi eu hamlinellu yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd.⁴
- Tystiolaeth ysgrifenedig⁵ ac ar lafar⁶ gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, a'u swyddogion.
- Ystyried tystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn ystod ei waith craffu, gan gynnwys ei ymgynghoriad a'i ymgysylltiad ar feysydd blaenoriaeth posibl.⁷

6. Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng ein cylch gwaith ni a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yng nghyswllt iechyd corfforol a meddyliol a gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc. Yn

² Llywodraeth Cymru, [Cyllideb ddrafft 2023-24: Cyllideb mewn cyfnod anodd](#), Rhagfyr 2022, t.19

³ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb ddrafft 2023-24: Cyllideb mewn cyfnod anodd](#), Rhagfyr 2022, t.20

⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Strategaeth y Chweched Senedd](#), Rhagfyr 2021.

⁵ [Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol](#), 21 Rhagfyr 2022

⁶ [Cofnod y Trafodion](#), 11 Ionawr 2023

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, [Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24](#) [cyrchwyd Ionawr 2023]

yr un modd â blynyddoedd blaenorol, rydym wedi rhannu gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y dystiolaeth a gawsom gan Lywodraeth Cymru a deunyddiau briffio preifat a baratowyd ar ein cyfer gan ein swyddogion.

2. Trosolwg a blaenoriaethu

MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

7. Mae'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru a chyllid ar gyfer iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant. Yn yr un modd â blynyddoedd ariannol blaenorol, y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi cael y dyraniad mwyaf yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Terfyn Gwariant Adrannol ("DEL") Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 yw £10,758 miliwn (47.0 y cant o'r cyfanswm o £22.9 biliwn a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru). Mewn termau arian parod, mae hyn yn £625.7 miliwn o gynnydd (6.2 y cant) ar gyllideb derfynol 2022-23, a £306.5 miliwn o gynnydd (2.9 y cant) ar y dyraniadau cyllideb dangosol ar gyfer 2023-24 a nodir yng nghyllideb 2022-23.⁸ Mae'r cynnydd i gyd, o'i gymharu â'r dyraniadau dangosol yn y gyllideb ar gyfer 2023-24 a gyhoeddwyd yn y gyllideb derfynol ym mis Mawrth 2022, yn ymwneud â chyllid refeniw; nid yw'r dyraniad cyfalaf ar gyfer 2023-24 wedi newid, sef £375.0 miliwn.

MEG Cyllid a Llywodraeth Leol

8. Darperir cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol awdurdodau lleol drwy'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol. Gan y DEL Cyllid a Llywodraeth Leol y mae'r ail ddyraniad mwyaf yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24: £5,113.6 miliwn (ac eithrio tua £0.9 biliwn o gyfraddau annomestig).⁹ Mae hyn yn golygu £461.9 miliwn o gynnydd (9.9 y cant) ar y gyllideb derfynol ar gyfer 2022-23, a £312.11 miliwn (6.5 y cant) ar y dyraniadau cyllidebol dangosol a amlinellir yng nghyllideb 2022-23.

9. Mewn datganiad ysgrifenedig ar y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2023-24, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y

⁸ Ffigyrau a baratowyd gan Ymchwil y Senedd gan ddefnyddio gwybodaeth o [gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24](#).

⁹ Ffigyrau a baratowyd gan Ymchwil y Senedd gan ddefnyddio gwybodaeth o [gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24](#).

byddai cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2023-24 yn cynyddu 7.9 y cant o'i gymharu â 2022-23, ac na fyddai unrhyw awdurdod yn cael llai na 6.5 y cant o gynnydd.¹⁰

Blaenoriaethu

10. Mae'r portffolio iechyd a gofal cymdeithasol yn eang, ac mae ganddo gysylltiadau cryf â phortffolios eraill, gan gynnwys mynd i'r afael â thlodi, tai, cyflogaeth, addysg a chyfiawnder cymdeithasol. Dechreuodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y sesiwn drwy ein hatgoffa bod mwy na hanner cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei gwario ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, gwasanaethau plant, a gofal cymdeithasol. Dywedodd bod tua 370,000 o bobl yn cael eu trin mewn gofal eilaidd ar gyfartaledd bob mis, ac mewn un wythnos ym mis Rhagfyr 2022 bod tua 400,000 o bobl wedi cael eu trin mewn gofal sylfaenol.¹¹

11. O'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid refeniw (£9.61 biliwn) yn cael ei ddyrannu ar gyfer darparu gwasanaethau craidd y GIG, gan gynnwys:

- Dyraniad refeniw craidd y GIG: £8.6 biliwn (£8.32 biliwn yng nghyllideb derfynol 2022-23) a £251.6 miliwn nad yw'n arian parod (£246.6 miliwn yng nghyllideb derfynol 2022-23).
- Iechyd Cyhoeddus Cymru: £136.7 miliwn (£129.0 miliwn yng nghyllideb derfynol 2022-23).
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru: £311.2 miliwn (£301.9 miliwn yng nghyllideb derfynol 2022-23) a £551,000 nad yw'n arian parod (£551,000 nad yw'n arian parod yng nghyllideb derfynol 2022-23).
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru: £48.2 miliwn (£46.2 miliwn o arian parod yng nghyllideb derfynol 2022-23) a £10.6 miliwn nad yw'n arian parod yng nghyllideb derfynol 2022-23).
- Gweithrediaeth y GIG: £13.1 miliwn (llinell newydd yn y gyllideb ar gyfer 2023-24).

12. Yn ei ymateb i'r gyllideb ddrafft, galwodd Confederasiwn GIG Cymru am strategaeth glir, ac ailystyried sut mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu:

¹⁰ Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2023-24](#), 14 Rhagfyr 2022

¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 152], 26 Ionawr 2021

"If we're going to meet the needs of the population, we need a long-term investment plan and clear priorities for the health and care sector. [...] While acknowledging the restrictions Welsh Government face, it's vital the government and all politicians are open with the public regarding the pressures facing the NHS and social care and what they can expect in the future. We will need political support to radically re-think how services are delivered in the longer term".¹²

13. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ei bod yn cefnogi'r farn hon. Dywedodd ei bod hi wedi darparu canllawiau i fyrddau iechyd ar gyfer datblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a oedd yn nodi chwe maes yr oedd hi eisiau iddynt ganolbwyntio arnynt, gan ychwanegu:

"So, I hope that the confederation will agree that streamlining, that being much more focused in terms of priorities, is the right direction to go in. Certainly, we've had a very good response from health boards to that".¹³

14. Ar ôl amlinellu'r chwe blaenoriaeth (trosglwyddo gofal yn cael ei ohirio a symud mwy o gymorth i'r gymuned yn unol ag uchelgeisiau 'Cymru Iachach'; materion yn ymwneud â gofal sylfaenol a chymunedol, gan gynnwys gwella mynediad at ymarfer cyffredinol, deintyddiaeth, optometreg, fferylliaeth a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn y gymuned yn ogystal ag adsefydlu a gwasanaethau iechyd meddwl; gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys cyflawni'r chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng; gofal ac adferiad wedi eu cynllunio, gan gynnwys cyrraedd y targedau amseroedd aros a nodir yn y cynllun a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022; canser, gan gynnwys cyflawni o ran y datganiad ansawdd a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt; Gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed), ychwanegodd:

"Now, you know, people will start screaming straight away and saying, 'What about my priority?' Making political decisions, determining priorities, is part of what you have to do as a politician, and that's a tough choice, but if we don't fix those, I think

¹² Conffederasiwn GIG Cymru, [NHS facing its greatest ever financial challenge](#), 13 Rhagfyr 2022

¹³ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 8 a 186], 11 Ionawr 2023

it will be difficult for us to address all of those other issues that people want us to support them with".¹⁴

15. Fe ofynnem i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol pa feysydd y byddai hi'n fodlon i fyrddau iechyd beidio eu blaenoriaethu. Esboniodd ei bod hi wedi nodi'r meysydd y dylent ganolbwyntio arnynt, yn hytrach na lle na ddylent, ond ei bod yn bwriadu adolygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig byrddau iechyd ar ôl iddynt gael eu cyflwyno er mwyn:

"...look at what are the implications of those and to work out if we are genuinely convinced that the other areas that we will obviously see them drawing back from as a result of that prioritisation are areas that are going to be politically acceptable for us".¹⁵

Ein barn ni

16. Wrth graffu ar y gyllideb ddrafft, rydym wedi archwilio sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r ysgogiadau ariannol sydd ar gael iddi er mwyn cyflawni'r canlyniadau a'r uchelgeisiau mae'n dymuno eu cyflawni ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym wedi ceisio eglurder ar flaenoriaethau a disgwyliadau'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidogion, ac wedi ceisio deall lle bydd dyraniadau cyllid yn galluogi cynnydd, a lle mae cronfeydd cyfyngedig, yn enwedig cronfeydd cyfalaf, yn golygu y bydd angen diwygio amserlenni a gynlluniwyd.

17. Heb os, mae'r cyd-destun ariannol yn heriol iawn. Cyfyngir ar hyblygrwydd ariannol gan chwyddiant uchel a chostau ynni uchel, mae effaith pandemig COVID-19 a chostau byw cynyddol yn parhau i effeithio ar staff a gwasanaethau, ac mae'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn ymrafael â mwy o alw tra hefyd yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad amseroedd aros a delio â materion hirsefydlog o ran y gweithlu. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau i'r amrywiaeth o weithgareddau y gellir eu cyflawni, ac o bosibl yr amserlenni o ran ymgymryd â gweithgarwch a chyflawni canlyniadau. Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch yr hyn mae'n canolbwyntio arno, pryd mae'n rhagweld y bydd camau'n cael eu cymryd, ac a oes angen diwygio amserlenni a nodwyd yn flaenorol.

18. Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth i fyrddau iechyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'i chwe blaenoriaeth ar gyfer y broses gynllunio Cynlluniau Tymor

¹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 121-122], 11 Ionawr 2023

¹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 11 Ionawr 2023

Canolig Integredig. Os gellir gwneud cynnydd yn y meysydd allweddol hyn, bydd yn helpu i ddatgloi capasiti a rhyddhau adnoddau i alluogi symud ymlaen mewn meysydd eraill yn y tymor hwy. Fodd bynnag, bydd angen sgysiau agored a gonest gyda gwasanaethau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Rydym hefyd yn croesawu cytundeb y Gweinidog yn ystod y sesiwn i rannu ei llythyr at fyrddau iechyd gyda ni. Fodd bynnag, byddai'n well yn y dyfodol pe bai gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhannu a'i chyhoeddi'n rhagweithiol fel bod tryloywder i ni, i rhanddeiliaid ac i'r cyhoedd am y weledigaeth strategol sy'n arwain cynlluniau'r byrddau iechyd. Byddai hefyd yn ein helpu i ganolbwyntio ein gwaith craffu ar gyllidebau drafft yn y dyfodol yn fwy effeithiol pe bai gwybodaeth am flaenoriaethau'r Gweinidogion yn cael ei darparu ymlaen llaw.

19. Mae gennym rai pryderon nad yw byrddau iechyd wedi cael canllawiau clir ynglŷn â pha feysydd mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu hystyried fel rhai 'derbyniol yn wleidyddol' ar gyfer tynnu'n ôl oddi wrthynt wrth iddynt ganolbwyntio ar ei chwe blaenoriaeth hi. Rydym yn deall y bydd hi'n adolygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd ar ôl iddynt gael eu cyflwyno i asesu a yw hi'n gyfforddus â'r penderfyniadau maent wedi eu gwneud. Fodd bynnag, er y gallai fod yn angenrheidiol, mae'n bosibl y bydd rhai penderfyniadau i leihau cyllid neu ffocws hefyd yn heriol neu'n amhoblogaidd, ac mae'n bosibl na fydd modd adnabod rhai cyfleoedd posib ar gyfer tynnu'n ôl o rai ardaloedd heb ystyried dewisiadau rhanbarthol neu genedlaethol. Yn ogystal, nid oes templed cyson na chyhoeddiad canolog o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd, gan ei gwneud yn anodd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid gael darlun clir o'r hyn sy'n digwydd ledled Cymru.

20. Yn ystod y sesiwn graffu gyffredinol a gynhaliwyd gennym gyda'r Gweinidogion ar 6 Hydref 2022, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym mai un o'r rhesymau y mae hi'n sefydlu Gweithrediaeth GIG hybrid yn hytrach nag un sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru yw am mai hi sy'n atebol am y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.¹⁶ Ar y sail hon, byddem yn disgwyl iddi chwarae rhan fwy gweithredol yn y penderfyniadau hyn a allai fod yn heriol.

Argymhelliad 1. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda byrddau iechyd am chwe blaenoriaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023-24. Dylai'r diweddariad gynnwys unrhyw bryder mae byrddau iechyd wedi ei godi gyda Gweinidogion, yn ogystal â manylion canllawiau pellach mae'r Gweinidogion wedi eu rhoi i

¹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 204], 6 Hydref 2022

fyrddau iechyd ar sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt liniaru unrhyw effaith ganlyniadol ar feysydd eraill.

Argymhelliad 2. Ar y sail bod disgwyl ar hyn o bryd i benderfyniadau gweinidogol ar y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig gael eu gwneud ym mis Mai neu fis Mehefin 2023, dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atom erbyn diwedd Gorffennaf 2023 i ddarparu crynodeb o sut mae ei chwe blaenoriaeth wedi llywio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig Byrddau Iechyd, a goblygiadau cyllidebol cysylltiedig o ran rhyddhau cyllid neu sicrhau effeithlonrwydd.

3. Rhoi pobl wrth wraidd iechyd a gofal cymdeithasol

Y pwysau ar y system iechyd a gofal cymdeithasol

21. Mae pandemig COVID-19, prinder digynsail o staff a chynnydd yn y galw am wasanaethau wedi rhoi pwysau aruthrol ar y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan arwain at amseroedd aros hir am asesiadau, gwasanaethau ac adolygiadau gofal. Mae'n bosibl na fydd pecynnau gofal cartref ar gael pan fydd pobl eu hangen, ac nid oes modd rhyddhau llawer o gleifion o'r ysbyty sy'n iawn yn feddygol i ddychwelyd adref yn ddiogel, gyda rhai angen eu rhoi mewn gofal preswyl oherwydd nad oes dewisiadau eraill ar gael.¹⁷ Yn ogystal, mae costau byw cynyddol, chwyddiant a chostau ynni yn effeithio ar wasanaethau gofal cymdeithasol hefyd.¹⁸

22. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Tachwedd 2022:

"...the combination of the huge increase in demand, the recruitment and retention issues, some of the fragilities that the pandemic has exposed—what we see is essentially a health and care system that is gridlocked. Many social care leaders are describing it in terms of crisis, and we don't use that word lightly, and many local authorities are also experiencing an increase in the volume of safeguarding referrals".¹⁹

23. Adroddwyd ddechrau Ionawr 2023 fod bron i 1,800 o gleifion a oedd yn ddigon iach yn feddygol i adael yr ysbyty, ond nad oedd modd eu rhyddhau oherwydd nad oedd cymorth

¹⁷ Ymchwiliad y Senedd, [Gofal cymdeithasol: gweithlu mewn argyfwng?](#), 8 Mawrth 2022

¹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 42], 11 Ionawr 2023

¹⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 9], 30 Tachwedd 2022

priodol yn ei le.²⁰ Fel mesur dros dro ychwanegol i ymateb i'r pwysau aciwt sy'n wynebu gwasanaethau'r GIG, dywedir bod Prif Swyddog Nyrsio Cymru a Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru wedi ysgrifennu at fyrddau iechyd i ddweud y dylid ystyried rhyddhau cleifion sy'n feddygol addas i gael eu rhyddhau hyd yn oed os nad yw pecyn gofal priodol wedi ei sefydlu eto.²¹ Nododd Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, Steve Elliot, mai bwriad hyn oedd gwella llif cleifion drwy ysbytai.²² Wrth siarad yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Ionawr 2023, esboniodd y Prif Weinidog:

"...mae'r cyngor yn ymdrin yn uniongyrchol â sicrhau nad yw pobl yn cael eu rhyddhau o dan amgylchiadau a fyddai'n arwain at eu haildderbyn yn gyflym. Mae'n siarad am bobl sydd, er enghraifft, yn aros am asesiad, ac yn awgrymu ei bod hi'n well i rywun aros am asesiad gartref, yn hytrach nag aros mewn gwely ysbyty—gwely ysbyty nad yw ar gael wedyn i rywun nad yw mewn cyflwr meddygol sefydlog yn aros am asesiad, ond sy'n aros i fynd i mewn drwy ddrws yr ysbyty i gael y driniaeth sydd ei hangen arno. Mae cydbwysedd risg yn rhywbeth y mae'r gwasanaeth iechyd yn ymdrin ag ef o ddydd i ddydd, ac wedi gwneud erioed".²³

24. Fe ofynnem i'r Gweinidogion am effaith bosibl y canllawiau rhyddhau diwygiedig ar ofalwyr di-dâl, a allai deimlo dan orfodaeth, neu hyd yn oed dan bwysau, i ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau gofalu. Fe wnaeth Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Albert Heaney, gydnabod y cyfyng-gyngor a allai godi yn sgil y pwysau sydd yn y system. Pwysleisiodd mai nod y canllawiau diwygiedig oedd ystyried cydbwysedd y risg a gwneud y peth iawn ar yr adeg iawn i gynorthwyo pobl yn eu cymunedau.²⁴ Gan gydnabod y pwysau ychwanegol y gallai gofalwyr eu hwynebu pan fydd y bobl maent yn gofalu amdanynt yn cael eu derbyn i'r ysbyty neu eu rhyddhau o'r ysbyty, dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol bod £1 miliwn wedi ei neilltuo yn 2023-24 i gynorthwyo gofalwyr yn hyn o beth.²⁵ Ychwanegodd bod gofalwyr yn gyffredinol yn awyddus i'w hanwyliaid ddychwelyd adref o'r ysbyty, ond ei bod yn bwysig bod rhyddhau cleifion yn digwydd mewn ffordd sy'n rhoi cymorth i'r sawl sy'n cael gofal, a'r gofalwr di-dâl. Un elfen allweddol o hyn yw'r cyfathrebu rhwng ysbytai a gofalwyr di-dâl, y dywedodd ei bod yn awyddus i'w weld yn gwella.²⁶

²⁰ BBC Cymru, [GIG a gofal cymdeithasol: a all Cymru ddatrys ei phroblemau?](#), 8 Ionawr 2023

²¹ Gweler, er enghraifft, BBC News, [GIG Cymru: Gellir anfon cleifion adref heb becyn gofal](#), 4 Ionawr 2023

²² Cofnod y Trafodion [paragraff 89], 11 Ionawr 2023

²³ Cofnod Trafodion y Cyfarfod Llawn [paragraff 26], 10 Ionawr 2023

²⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 106], 11 Ionawr 2023

²⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 92], 11 Ionawr 2023

²⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 96], 11 Ionawr 2023

25. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym mai mynd i'r afael ag oedi o ran trosglwyddiadau gofal, gan gynnwys gweithio gyda llywodraeth leol, oedd y flaenoriaeth bennaf yn y canllawiau yr oedd wedi eu gosod ar gyfer byrddau iechyd wrth iddynt baratoi eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023-24. Gan ddisgrifio angen i roi brys mawr ar waith i gyflawni'r uchelgais a nodwyd yn 'Cymru iachach', roedd yn cydnabod y byddai cyflawni hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd symud adnoddau a symud gofal o ysbytai i'r gymuned. Ychwanegodd bod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael £144 miliwn y flwyddyn am bum mlynedd i gynorthwyo byrddau iechyd i weithio gyda llywodraeth leol a'r trydydd sector drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni yn erbyn chwe blaenoriaeth a nodwyd, a dywedodd bod tua thri ohonynt yn berthnasol i oedi wrth drosglwyddo gofal a cheisio atal pobl rhag mynd i'r ysbyty.²⁷

26. Yn ogystal, fel mesur dros dro mewn ymateb i'r sefyllfa aciwt yn ystod gaeaf 2022-23, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru wedi cyllido 508 o welyau cymunedol, gan gynnwys prynu gwelyau mewn cartrefi gofal. Mae cyllid ar gyfer y gwelyau hyn yn 2022-23 wedi ei dynnu o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal â chyllidebau'r bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol. Cadarnhaodd, pe bai'r angen am ddarparu'r gwelyau hyn yn parhau i fod yn 2023-24, y bydd rhywfaint o gapasiti a rhywfaint o arian o fewn rhaglen Cronfa Integreiddio Rhanbarthol y gellid ei defnyddio. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr angen i ddatrys y materion sylfaenol, gan gynnwys newidiadau strwythurol a dulliau gweithredu fel 'ysbyty gartref' i symud mynediad at weithwyr proffesiynol a gwasanaethau allweddol o ysbytai i'r gymuned.²⁸

Atal

27. Buom yn trafod gyda Gweinidogion sut cafodd yr agenda ataliol ei gwreiddio drwy'r gyllideb ddrafft gyfan. Esboniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai hyn yn cael ei gryfhau ymhellach yn sgil cyflwyno gofyniad cyfreithiol yn ddiweddarach eleni i gynnal asesiadau effaith ar iechyd ar gyfer polisiâu Llywodraeth Cymru.²⁹

28. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant bod atal yn greiddiol i'r portffolio iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd fod mwyafrif y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd, sydd o dan ddyletswydd gyfreithiol i ystyried

²⁷Cofnod y Trafodion [paragraffau 25-30], 11 Ionawr 2023

²⁸Cofnod y Trafodion [paragraffau 32-34, 266 a 268], 11 Ionawr 2023

²⁹Cofnod y Trafodion [paragraff 146], 11 Ionawr 2023

atal yn eu gwariant, yn ogystal ag ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dywedodd:

"So just because you can't point to a pot of money that is entitled 'prevention' doesn't mean that prevention isn't happening [...]. So, absolutely, prevention is a core part of what we're doing, and we can demonstrate that both with targeted resources, but as well with the directions that we're giving to the NHS in how they spend the money".³⁰

29. Rhoddodd y Gweinidogion a'u swyddogion enghreifftiau o ddyraniadau o fewn y gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol ac o bob rhan o'r llywodraeth i ddangos hyn, gan gynnwys: Pwysau Iach, Cymru Iach (gan gynnwys y cynllun gweithredu cysylltiedig ar fwydo ar y fron); y cynllun rheoli tybaco; camau gweithredu iechyd meddwl fel haen 0, mynediad agored heb atgyfeiriadau a'r dull ysgol gyfan ar gyfer plant a phobl ifanc; gweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau; teithio llesol; gofal plant a Dechrau'n Deg; a phrydau ysgol am ddim.³¹

30. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'n poeni pe bai byrddau iechyd yn dad-flaenoriaethu gwaith ataliol yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, ac awgrymodd bod cyfleoedd i atal o fewn ei chwe blaenoriaeth. Er enghraifft, dywedodd wrthym y gallai byrddau iechyd weithio gyda phobl sydd ar restrau aros i ddarparu rhagsefydlu, rhoi cyngor ar fwyta'n iach, a chynnig cymorth iechyd meddwl. Dywedodd ei bod hi wedi gofyn i fyrddau iechyd neilltuo cyllid at y diben hwn.³²

Iechyd meddwl

31. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wrthym fod £773.6 miliwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer gwasanaethau iechyd o fewn y gyllideb i fyrddau iechyd, ynghyd â dyraniad ychwanegol o £75 miliwn yn y gyllideb ar gyfer iechyd meddwl. Disgrifiodd y gwaith o weithredu'r cynllun gweithlu iechyd meddwl fel ei phrif flaenoriaeth, ar y sail:

³⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 144], 11 Ionawr 2023

³¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 139-139, 141 a 154], 11 Ionawr 2023

³² Cofnod y Trafodion [paragraff 135], 11 Ionawr 2023

"..you can keep pouring money into the NHS, but unless you've got the workforce to actually deliver then it's not going to deliver what you want it to. So, the workforce plan is an absolutely key priority for me".³³

32. Esboniodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant bod ei blaenoriaethau eraill ar gyfer iechyd meddwl yn cynnwys:

- Adfer y sefyllfa o ran amseroedd aros (gan gynnwys amseroedd aros CAMHS).
- Adolygiad uned gyflawni o CAMHS.
- Cyflwyno gwasanaeth '111 pwyswch 2 ar gyfer iechyd meddwl' er mwyn darparu gwasanaeth 24 awr i bobl sydd angen cymorth iechyd meddwl brys.
- Gwasanaethau anhwylderau bwyta, gan gynnwys gwaith cwmpasu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar uned cleifion mewnol ar gyfer anhwylderau bwyta yng Nghymru.
- Gwaith i wella'r cyfnod pontio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion.³⁴

Ein barn ni

33. Rydym yn pryderu am y pwysau sy'n wynebu'r system iechyd a gofal cymdeithasol y gaeaf hwn. Rydym yn cytuno â'r Gweinidogion bod mynd i'r afael â materion yn ymwneud â llif cleifion ac oedi cyn trosglwyddo gofal yn hanfodol i ddatgloi'r dagfa bresennol o fewn y system. Gall oedi wrth drosglwyddo gofal fod yn niweidiol i gleifion, a rhoi straen ar wasanaethau iechyd a gofal. Fodd bynnag, mae rhyddhau claf heb y gofal a'r cymorth priodol yn gallu gosod gofynion afresymol ar deuluoedd a gofalwyr di-dâl, yn peri risgiau i'r unigolyn, neu'n cynyddu'r tebygolrwydd o dderbyn i'r ysbyty eto. Fel y dywedasom yn ein hadroddiad ar ryddhau cleifion o'r ysbyty, "heb ddata cadarn mae'n anodd gwybod gwir faint y broblem".³⁵ Nodwn, yn ei hymateb i'n hadroddiad, fod Llywodraeth Cymru yn nodi y byddai fframwaith adrodd misol newydd yn cael ei gyflwyno i'r holl fyrddau iechyd a phartneriaid gofal cymdeithasol ar ddiwedd

³³ Cofnod y Trafodion [paragraff 234], 11 Ionawr 2023

³⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 234-237], 11 Ionawr 2023

³⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac effaith hynny ar lif cleifion drwy ysbytai, Mehefin 2022

mis Medi 2022, cyn bod adolygiad chwe mis yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2023³⁶. Hyd yn hyn, nid oes data ar gael yn gyhoeddus.

34. Nodwn y sicrwydd a gynigiwyd gan y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Ionawr 2023 nad yw'r canllawiau a roddir i fyrddau iechyd ar 30 Rhagfyr 2022 yn gwneud unrhyw awgrym y dylid rhyddhau unrhyw un yn annïogel, nac mewn amgylchiadau y gellid disgwyl iddynt arwain at eu derbyn i'r ysbyty eto.³⁷ Fodd bynnag, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am ba mor hir y mae disgwyl i'r canllawiau diwygiedig fod ar waith, a sut bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y canllawiau ar ddiogelwch cleifion.

Argymhelliad 3. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau pa mor hir mae hi'n disgwyl i'r canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd ar 30 Rhagfyr 2022 barhau i fod yn weithredol, sef y gall cleifion gael eu rhyddhau wrth aros am asesiad gofal cymdeithasol neu heb i becyn gofal fod yn ei le. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut a phryd y bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y gellir monitro ei effaith ar ddiogelwch cleifion.

35. Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth ar gyfer 508 o welyau cymunedol yn 2022-23, a'r cadarnhad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod capasiti i'r ddarpariaeth honno gael ei hymestyn i 2023-24 pe bai ei angen. Nodwn, mewn ymateb i ddadl ar y pwysau sydd ar y GIG yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Ionawr 2023, iddi nodi bod y ddarpariaeth wedi cynyddu i 595 o welyau.³⁸ Fodd bynnag, rydym hefyd yn cytuno â hi mai mesur tymor byr yn unig y gall hwn fod, a bod angen mynd i'r afael â'r materion sylfaenol ar fyrder. Roedd ein hadroddiad ar ryddhau cleifion o'r ysbyty a'i effaith ar lif cleifion ym mis Mehefin 2022 yn cynnwys cyfres o argymhellion i gynorthwyo gyda hyn.³⁹

36. Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gyda ni gan AGC ynghylch pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty i fyw mewn cartrefi gofal dros dro gan nad oes digon o ofal yn y cartref ar gael pan mai eu dewis fyddai dychwelyd adref. Yn ei thystiolaeth i'n hymchwiliad diweddar i ryddhau cleifion o'r ysbyty, dywedodd AGC, lle nad oes dewis arall yn lle bod pobl yn cael eu rhyddhau i gartref gofal, ei bod yn bwysig eu bod yn cael y cymorth priodol i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth tra'n byw yn y cartref gofal. Mae hyn yn golygu y dylid darparu gwasanaethau ailalluogi 'mewngymorth' neu gynorthwyo staff gofal mewn cartrefi gofal i

³⁶ Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ryddhau cleifion o ysbytai a'i effaith ar lif cleifion drwy ysbytai, Gorffennaf 2022

³⁷ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 10 Ionawr 2023

³⁸ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 520], 25 Ionawr 2023

³⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac effaith hynny ar lif cleifion drwy ysbytai, Mehefin 2022

ddatblygu sgiliau ailalluogi ychwanegol.⁴⁰ Fodd bynnag, rydym yn cytuno â AGC mai dyma'r 'dewis lleiaf gwael o'r holl dewisiadau',⁴¹ gan nad yw'n rhoi ystyriaeth lawn o hawliau pobl na'r hyn sy'n bwysig iddynt.

37. Pan fydd gwasanaethau dan bwysau mor ddwys, rydym yn deall y gall fod yn heriol neilltuo amser ar gyfer sgysiau o safon gyda phobl am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd y sgysiau 'beth sy'n bwysig' hyn fel ffordd o sicrhau bod y gofal a'r cymorth mae pobl yn eu derbyn yn adlewyrchu eu hanghenion ac yn blaenoriaethu'r hyn sydd bwysicaf iddynt yn cael ei ymgorffori yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae disgwyl i'r adroddiad terfynol ar werthuso gweithredu Deddf 2014 gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2023, ac rydym yn bwriadu cynnal sesiynau tystiolaeth gyda'r academyddion arweiniol i archwilio eu canfyddiadau.

38. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y dylai pobl sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth gael y cymorth a'r cyngor cywir ar gyfer eu llesiant a'u hiechyd meddyliol a chorfforol tra'u bod yn aros—mae'r rhain yn faterion y gwnaethom eu harchwilio'n fanwl yn ein hadroddiad ym mis Ebrill 2022 ar effaith ôl-groniad amseroedd aros.⁴² Fodd bynnag, mae angen i'r ffocws ar atal fod yn ehangach na'r rhai sydd eisoes ar restrau aros. Roeddem yn falch o glywed i ba raddau mae atal yn rhan annatod o feysydd polisi Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod yr heriau wrth gyflwyno materion eang, trawsbynciol o'r natur hon o fewn y gyllideb, ac yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i roi rhestr ddangosol i ni o'r ffyrdd mae'r gyllideb yn ategu'r agenda ataliol. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd os rhoddir ystyriaeth bellach i amlygrwydd atal yn negeseuon Llywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb.

39. O ran iechyd meddwl, rydym yn cefnogi'r ffaith fod y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn blaenoriaethu gwaith i adfer y sefyllfa o ran amseroedd aros iechyd meddwl ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a gwasanaethau iechyd meddwl plant, ac rydym yn falch o weld gwella'r pontio rhwng gwasanaethau yn cael blaenoriaeth. Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod y gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n aros am apwyntiad CAMHS arbenigol yn gadarnhaol, ac rydym yn gobeithio gweld gwelliannau pellach yn hyn o beth. Rydym hefyd yn cytuno mai dim ond dechrau taith pobl ifanc gyda CAMHS yw'r apwyntiad cyntaf, ac rydym yn falch o wneud argymhelliad ar y cyd â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

⁴⁰ HD10. Arolygiaeth Gofal Cymru

⁴¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 71], 30 Tachwedd 2022

⁴² Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, [Aros yn iach? Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru](#), Ebrill 2022

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn argymhell ar y cyd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, yn ei hymatebion i'n hadroddiadau a bob chwe mis wedi hynny, ddarparu data i'r ddau Bwyllgor, wedi eu dadansoddi fesul bwrdd iechyd lleol, yn nodi:

- Amseroedd aros ar gyfer yr apwyntiad cyntaf gyda CAMHS.
- Cyfran y bobl ifanc sy'n cael cynnig ail apwyntiad.
- Yr amseroedd aros ar gyfer ail apwyntiad.

40. Mae datblygu'r gwasanaeth '111 pwyswch 2 ar gyfer iechyd meddwl' a'r ffocws ar anhwylderau bwyta gan gynnwys y cwmpasu ar gyfer uned cleifion mewnol hefyd yn gadarnhaol, ond byddem yn croesawu rhagor o eglurder ar yr amserlenni ar gyfer y prosiectau pwysig hyn.

Argymhelliad 5. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r cerrig milltir a'r amserlenni ar gyfer datblygu gwasanaeth '111 pwyswch 2 ar gyfer iechyd meddwl' a'r camau nesaf tuag at sefydlu uned i gleifion mewnol ar gyfer anhwylderau bwyta yng Nghymru.

41. Nodwyd yn ein hadroddiad diweddar ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl nad oedd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant mewn sefyllfa bryd hynny i gadarnhau a fyddai cynllun y gweithlu iechyd meddwl yn cael ei gyllido'n llawn. Argymhellom unwaith y byddai'r gyllideb wedi ei chyhoeddi, y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau pa gamau oedd wedi cael dyraniad cyllid llawn, cyllid rhannol, a pha gamau nad oedd wedi cael dyraniad. Gofynnwyd hefyd am fanylion ynghylch pa gamau wedi eu cyllido'n rhannol neu heb eu cyllido fyddai'n cael eu blaenoriaethu pe bai cyllid ychwanegol ar gael.⁴³ Edrychwn ymlaen at gael yr wybodaeth honno pan fydd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn ymateb i'n hadroddiad ddechrau Chwefror.

⁴³ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru](#), Rhagfyr 2022, argymhelliad 18

4. Arloesi ar gyfer gwelliant

Cyllid trawsnewid

42. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am sut byddai'r gyllideb ddrafft yn cynorthwyo datblygu dull 'system gyfan', gyda mwy o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a chynnydd parhaus o ran trawsnewid gwasanaethau. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, amlygodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol dros bum mlynedd (£144.6 miliwn yn canolbwyntio ar chwe model cenedlaethol o ofal integredig) a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwysu sy'n werth £50 miliwn (sy'n ategu'r bwriad i sefydlu 50 o ganolfannau iechyd a gofal integredig ledled Cymru).⁴⁴

43. Rydym ni, fel ein Pwyllgor rhagflaenol, wedi tynnu sylw yn gyson at y pryderon rydym yn eu clywed gan randdeiliaid, ac sydd wedi eu nodi yn y gwerthusiadau cyhoeddedig,⁴⁵ sef nad yw cyllid trawsnewid bob amser yn arwain at ganlyniadau trawsnewidiol na newid parhaus. Gall hyn fod oherwydd bod cyllid yn cael ei ddefnyddio naill ai i gynnal gwasanaethau presennol sydd o dan bwysau, sefydlu nifer fawr o gynlluniau peilot bach yn hytrach na phrosiectau mwy neu rai sy'n canolbwyntio'n well ar bethau, neu oherwydd nad yw arferion da a nodwyd drwy gynlluniau peilot llwyddiannus yn cael eu rhannu, eu huwchraddio na'u cyflwyno'n rheolaidd. Fe wnaethom ofyn y cwestiwn hwn i Lywodraeth Cymru. Dywedodd Alex Slade, y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl, fod proses gynllunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn cynnwys cynllunio clwstwr lle gallai clystyrau gofal sylfaenol nodi anghenion lleol. Dywedodd y gallai byrddau iechyd, drwy'r broses gynllunio hon, nodi sut mae cyllid yn cael ei ddefnyddio, yr hyn mae'n ei gyflawni, a lle gellid prif ffrydio dulliau arloesol ar draws ardaloedd byrddau iechyd. Gan dynnu sylw at enghreifftiau yn cynnwys ehangu timau eiddilwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a mynediad uniongyrchol at ffisiotherapi, nododd fod y gyllideb wedi cynnwys £20 miliwn y flwyddyn o gyllid rheolaidd ar gyfer gweithgareddau lleol er 2018.⁴⁶

44. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod trawsnewid gofal sylfaenol yn canolbwyntio ar wasanaethau meddygol cyffredinol, deintyddiaeth, fferylliaeth gymunedol ac optometreg, ac mai'r prif nod yw cael y gwerth gorau posibl o'r contractau sydd ar waith.⁴⁷ Yn ogystal â chanolbwyntio ar y materion penodol ym mhob maes, eglurodd Alex

⁴⁴ Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, 21 Rhagfyr 2022

⁴⁵ Er enghraifft Archwilio Cymru, *Y Gronfa Gofal Integredig*, 17 Gorffennaf 2019 a Llywodraeth Cymru, *Y Gronfa trawsnewid iechyd a gwasanaethau cymdeithasol 2018 i 2021: gwerthusiad*, Gorffennaf 2021

⁴⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 246], 11 Ionawr 2023

⁴⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 241], 11 Ionawr 2023

Slade fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid a grwpiau cleifion, ac yn chwilio am gyfleoedd i sicrhau bod pob gweithiwr iechyd proffesiynol yn gallu gweithio i ben uchaf eu galluoedd o fewn timau sydd â chymysgedd sgiliau priodol.⁴⁸ Dywedodd hefyd bod buddsoddi mewn gofal sylfaenol wedi galluogi i wasanaethau lleol fel mynediad uniongyrchol at ffisiotherapi neu wasanaethau fferylliaeth gael eu cyfeirio i ateb galw grwpiau poblogaeth leol. Dywedodd bod y rhaglen o gwmpas hybiau a chyfleusterau llesiant integredig yn datblygu o ddifri. Cafodd y cynllun cyntaf, yn Nwyrain Casnewydd, ei gymeradwyo yn 2022 ac roedd wedi dod ag amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol at ei gilydd i roi llwyfan i wasanaethau cydgysylltiedig ac integredig.⁴⁹

45. Fe ofynnem am y potensial ar gyfer integreiddio rhithwir a dulliau digidol o fewn gofal sylfaenol. Pwysleisiodd Alex Slade y potensial ar gyfer dulliau digidol fel wardiau rhithwir i ddod â gwasanaethau at ei gilydd a sicrhau bod cleifion yn gallu gweld y gweithiwr proffesiynol cywir ar yr adeg gywir yn y lleoliad priodol. Dywedodd fod y dull hwn wedi ei gyflwyno ledled clystyrau gofal sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a'i fod yn cynnig cyfleoedd i wella llif cleifion drwy ganfod ffyrdd i bobl gael mynediad at wasanaethau a chymorth, gan gynnwys y trydydd sector a gwasanaethau cymorth cymunedol, tra'n aros adref. Ychwanegodd y byddai monitro maint y galw a defnydd o wardiau rhithwir yn helpu wrth asesu effaith y model, a bod gwaith cwmpasu ar y gweill i archwilio sut gallai darpariaeth gwasanaethau digidol, gan gynnwys darpariaeth o bell, alluogi ehangu wardiau rhithwir.⁵⁰

Cyllid cyfalaf

46. Wrth fyfyrion ar y dyraniadau cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael yng nghyllideb ddrafft 2023-24, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym y byddai'n hoffi gweld buddsoddiad cyfalaf mewn nifer o feysydd, gan gynnwys gweithio rhanbarthol; digidol; a seilwaith iechyd, gan gynnwys ysbytai. Cytunodd â Chonffederasiwn GIG Cymru bod diffyg cyllid cyfalaf yn rhwystr sylweddol rhag datblygu trawsnewid, gan ddweud:

"...we wouldn't even scratch the surface with the kind of money that we have available".⁵¹

⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 242-244], 11 Ionawr 2023

⁴⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 125-127], 11 Ionawr 2023

⁵⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 125-127 a 131], 11 Ionawr 2023

⁵¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 248 a 250], 11 Ionawr 2023

47. Ychwanegodd mai'r flaenoriaeth gyntaf o fewn y cyllid cyfalaf a oedd ar gael oedd cydymffurfio â rheoliadau tân a chynnal a chadw, ond dywedodd ei bod wedi gofyn i fyrddau iechyd lunio cynigion 10 mlynedd ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf. Dywedodd wrthym y byddai hyn yn helpu i symud i ffwrdd o ddyrannu cyllid ar sail y cyntaf i'r felin, ac yn helpu i ddatblygu gweledigaeth tymor hwy ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru:

"...what does the health service in west Wales look like in future? What does tertiary care in Wales look like in future? It's those kinds of big, long-term plans that you can't switch on overnight. You saw how long it took to build the Grange, for example. That was a very, very long process. So, you think about the next generation, what's coming next—we need to start preparing for that now, and you've seen some of our hospitals are already creaking".⁵²

Ein barn ni

48. Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn bortffolio eang, ac yn gyfrifol am fodloni anghenion cymhleth a phersonol. Nid yw'n syndod, efallai, bod rhwydwaith cymhleth o wasanaethau, strwythurau a strategaethau, a nifer fawr o gynlluniau peilot yn archwilio gwelliannau posibl i arferion neu bolisi. Mae angen proses glir, dryloyw, ac amserol hefyd ar gyfer gwerthuso prosiectau, er mwyn sicrhau bod cynlluniau llwyddiannus yn cael eu cynnal a'u prif ffrydio, a bod prosiectau aflwyddiannus yn cael eu dirwyn i ben. Fodd bynnag, gall cymhlethdod y darlun ei gwneud hi'n anodd cael ymdeimlad clir o'r weledigaeth arweiniol gyffredinol, neu lle mae'r cyfrifoldeb ar gyfer sicrhau bod gwaith yn cyd-fynd â'r nodau strategol cyffredinol a bod cynlluniau peilot llwyddiannus yn cael eu huwchraddio a'u cyflwyno fel bod arferion da ac arloesi yn cael cyfle i wreiddio ac yn arwain at drawsnewid gwirioneddol wrth weithredu neu ddarparu gwasanaethau. Mae bob amser yn bwysig gwneud hyn yn iawn, ond gellid dadlau ei bod hyd yn oed yn fwy pwysig o fewn y cyd-destun ariannol presennol, gan fod trawsnewid yn cynnig cyfleoedd i ddod o hyd i effeithlonrwydd a helpu'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i fynd ymhellach.

49. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'r angen i ddatblygu gweledigaeth a chynlluniau tymor hwy ar gyfer trawsnewid gwasanaethau iechyd a buddsoddiad cyfalaf. Yn amlwg, mae byrddau iechyd yn rhanddeiliaid allweddol yn y broses hon. Fodd bynnag, os yw gweithio a meddwl rhanbarthol yn mynd i fod yn rhan lawn o'r gwaith o ddatblygu a darparu buddsoddiad cyfalaf a thrawsnewid yn y tymor hwy, mae angen

⁵² Cofnod y Trafodion [paragraff 254], 11 Ionawr 2023

i'r mecanweithiau a'r arweinyddiaeth gywir fod ar waith i ddod â chynlluniau byrddau iechyd unigol at ei gilydd, yn ogystal â gwaith cyrff iechyd eraill gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru,⁵³ a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweledigaeth arweiniol a rennir.

Argymhelliad 6. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru egluro pa rôl sydd gan Weinidogion, Gweithrediaeth y GIG a byrddau iechyd o ran datblygu, darparu ac arwain gweledigaeth tymor hwy ar gyfer trawsnewid gwasanaethau iechyd a buddsoddiadau cyfalaf. Dylai hefyd egluro sut bydd yn sicrhau bod Cynlluniau Tymor Canolig Integredig byrddau iechyd yn cyd-fynd â'r weledigaeth tymor hwy, a bod gweithio rhanbarthol wedi ei wreiddio o'u mewn.

50. Rydym yn cydnabod bod sicrhau trawsnewidiad o fewn amgylchedd gwleidyddol yn heriol, ac y gall ar adegau fod yn anodd hyd yn oed cael trafodaethau am y weledigaeth ar gyfer trawsnewid o'r fath o fewn cyd-destun gwleidyddiaeth leol a phleidiol. Mae ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd yn amlygu ein huchelgais o weithredu gyda phwrpas trawsbleidiol cyffredin wrth i ni gyflawni ein rôl o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.⁵⁴ Mae dod o hyd i dir cyffredin yn hanfodol os ydym am weld trawsnewid angenrheidiol yn ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol, eu strwythurau a'u diwylliant—er enghraifft, i sicrhau newid tuag at atal ac ymyriadau cynnar, a symud i ffwrdd o ofal eilaidd a thuag at ofal sylfaenol a chymunedol.

51. Heb os, mae natur gyfyngedig cyllid cyfalaf yn rhwystr sylweddol i gyflymder y newid trawsnewidiol y gellir ei gyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r newid diwylliannol sy'n angenrheidiol i gyflawni trawsnewidiad gwirioneddol o reidrwydd wedi ei gyfyngu yn yr un modd. Yn union fel nad yw adeiladau newydd neu offer newydd yn gwarantu ffyrdd newydd o feddwl neu gydweithredu, ni ddylai eu habsenoldeb o ganlyniad i gyllid cyfalaf cyfyngedig atal cynnydd o ran y newidiadau diwylliannol. Yn wir, mae newidiadau diwylliannol o'r fath—er enghraifft, mwy o feddwl a gweithio'n rhanbarthol, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y defnydd mwyaf effeithiol yn cael ei wneud o'r cronfeydd cyfyngedig sydd ar gael.

Argymhelliad 7. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am sut mae'r cynlluniau ar gyfer dyraniadau cyfalaf yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn alinio â'r chwe blaenoriaeth a amlinellwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chanllawiau ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2023-24. Wrth wneud hynny, dylai nodi pa newidiadau (os o gwbl) a wnaed i ddyraniadau cyfalaf blaenorol

⁵³ Er enghraifft, os na fydd pob bwrdd iechyd yn buddsoddi'n ddigonol mewn offer TGCh a sgiliau staff, gallai hynny gyfyngu ar y cwmpas ar gyfer trawsnewid a chyflawni blaenoriaethau ehangach Gweinidogion.

⁵⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Strategaeth y Chweched Senedd*, Rhagfyr 2021

neu gynlluniau gwario i adlewyrchu cyflwyno'r chwe blaenoriaeth yn ogystal â'r angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw.

5. Y Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

Cynllunio strategol y gweithlu

52. Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru ("AaGIC") a Gofal Cymdeithasol Cymru ("GCC") strategaeth gweithlu ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.⁵⁵ Yn ystod haf a hydref 2022, buont yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu er mwyn helpu i ddatblygu'r camau gweithredu ategol ar gyfer ail gam y strategaeth gweithlu ar y cyd.⁵⁶

53. Yn ystod ein sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidogion ar 6 Hydref 2022, gofynnem i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ddiweddariad. Dywedodd:

"I'm a little bit frustrated, as you are, in terms of the workforce plan. I did receive a copy that wasn't where I needed it to be, so there's a lot of work being done, and once again, I'd rather get something right than get it done fast. So, there's a huge amount of work being done on that. I'm expecting to see a new iteration of that report by the end of October, and I will seek to get that published as soon as we can, working with Health Education and Improvement Wales, who really are the people who should be leading in this space."⁵⁷

54. Fe ofynnem iddi ar 11 Ionawr 2023 am ddiweddariad pellach. Dywedodd ei bod hi'n disgwyl cyhoeddi strategaeth gweithlu diwygiedig erbyn diwedd Ionawr 2023, a'i bod hi hefyd yn disgwyl i gynllun gweithredu AaGIC ar gyfer y flwyddyn gael ei gyhoeddi yn fuan iawn.⁵⁸ Cyhoeddwyd cynllun gweithredu AaGIC wedi hynny ar 18 Ionawr 2023. Disgrifiwyd y cynllun fel

⁵⁵ Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, [Cymru Iachach: ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol](#), Hydref 2020. Fel rhan o'n [gwaith ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol](#), cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth lafar gydag AaGIC a GCC ar 4 Tachwedd 2021 ar y strategaeth ar y cyd, wedi ei llywio gan alwad wedi ei thargedu am dystiolaeth ysgrifenedig.

⁵⁶ Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, [Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Arolwg Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) [cyrchwyd Ionawr 2023]

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, [paragraff 193], 6 Hydref 2022

⁵⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 219], 11 Ionawr 2023

un “uchelgeisiol” yn y datganiad i’r wasg gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yr un pryd, a dywedwyd y byddai’n cael ei gefnogi “gan y pecyn buddsoddi uchaf erioed o £281m”.⁵⁹

Staff asiantaeth

55. Nodir pryderon yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru am lefel gwariant ar staff asiantaethau a locwm o fewn y gwasanaeth iechyd, a dywed ei bod yn bwriadu gweithio gyda mudiadau ac undebau llafur i reoli hyn:

“Ein nod yw cyflawni gwaith yn gyflym er mwyn deall y sefyllfa bresennol yn glir, lleihau gwariant a dibyniaeth ar staff asiantaeth a locwm cyn gynted â phosibl, a sicrhau ein bod mewn sefyllfa well yn y dyfodol. Drwy fframwaith cenedlaethol byddwn yn ystyried terfynau a thargedau ar gyfer defnyddio a gwario ar staff locwm ac asiantaethau, wedi’u hategu gan systemau gweithredu safonol.”⁶⁰

56. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar, tynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sylw at gymhlethdod mynd i’r afael â’r mater hwn ar yr un pryd â sicrhau bod lefelau staffio diogel yn cael eu cyflawni, ond roedd yn cydnabod y gellid gwneud cynnydd yn gyflymach mewn rhai meysydd. Dywedodd bod tua 65 y cant o gyllideb y GIG yn cael ei gwario ar staffio, gyda 6 y cant o hynny’n cael ei wario ar staff asiantaeth. Dywedodd fod camau cenedlaethol wedi bod yn llwyddiannus cyn y pandemig o ran lleihau gwariant ar staff asiantaethau a locwm, ac y dylai trafodaethau sydd ar y gweill gydag undebau llafur a datblygu cynllun gweithredu’r gweithlu helpu i sbarduno cynnydd.⁶¹

Gofal cymdeithasol

57. Mae breuder y gweithlu gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn risg sylweddol iawn i gynaliadwyedd y sector.

58. Mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

“While we of course welcome the increases earmarked by the Welsh Government in the Draft Budget for 2022-23 [sic], we are conscious that this is not going to put

⁵⁹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Mwy o leodd hyfforddi i nyrsys a pharafeddygon yng Nghymru, diolch i gynnydd o 8% yn y gyllideb hyfforddiant](#), 18 Ionawr 2023

⁶⁰ [Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol](#), 21 Rhagfyr 2022

⁶¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 221, 225 a 228], 11 Ionawr 2023

social care on a path to stability and sustainability. Sector transformation requires strong, collective, compassionate leadership, a resilient and respected workforce and these need to be backed up by a long-term and sustainable funding settlement for the health and social care system, which we have long been calling for".⁶²

59. Yn ystod ein gwaith craffu y llynedd ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, fe wnaeth y Dirprwy Weinidog gydnabod na fyddai'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn unig yn ddigon i fynd i'r afael ag argyfwng y gweithlu gofal cymdeithasol. Dywedodd bryd hynny bod angen rhoi sylw brys i delerau ac amodau y tu hwnt i dâl, ac esboniodd fod y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wedi cael cais i wneud argymhellion ar delerau ac amodau, gan gynnwys dilyniant gyrfa.⁶³ Fe wnaethom groesawu hyn yn ein hadroddiad ym mis Chwefror 2022 ar gyllideb ddrafft 2022-23, gan alw am roi'r flaenoriaeth uchaf i'r gwaith a bwrw ymlaen ar fyrder. Fe wnaethom hefyd ofyn i Lywodraeth Cymru nodi'r amserlenni ar gyfer disgwyl i'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wneud ei argymhellion i wella telerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.⁶⁴ Fe wnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn ein hargymhelliad mewn egwyddor, ac fe ddarparodd wybodaeth gefndirol am y Fforwm. Dywedodd, fodd bynnag, y byddai'r Fforwm ei hun yn ystyried beth fyddai'r disgwyliadau o ran amserlenni ar gyfer bwrw ymlaen â'i waith.⁶⁵ Fe wnaethom godi'r mater hwn eto yn ein hadroddiad ym mis Mehefin 2022 ar effaith rhyddhau cleifion ar lif cleifion drwy ysbytai, a galw ar Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Erbyn diwedd 2022, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad ar y gwaith a wnaed i wella cyflog, telerau ac amodau a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau â'u cymheiriad yn y GIG. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar gyflwyno strwythur tâl cenedlaethol ar gyfer gofal hefyd.
- Erbyn diwedd 2022, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad am y gwaith sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â thâl salwch ar gyfer gweithwyr gofal

⁶² Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, [Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24](#), Ionawr 2023

⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 179], 13 Ionawr 2022

⁶⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23. Chwefror 2022](#)

⁶⁵ Llywodraeth Cymru, [Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyllideb ddrafft 2022-23](#), Mawrth 2022

cymdeithasol, ac amlinelliad o waith arfaethedig y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol (gan gynnwys amserlenni).⁶⁶

60. Derbyniwyd yr argymhellion hyn gan Lywodraeth Cymru, a ddywedodd y byddai'r Fforwm yn cyhoeddi diweddariad ar gynnydd a wnaed ar draws y blaenoriaethau allweddol erbyn diwedd 2022.⁶⁷ Nid yw'r Fforwm wedi cyhoeddi diweddariad eto, er i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddweud wrthym ar 11 Ionawr 2023 ei bod yn disgwyl iddo wneud hynny yn gynnar eleni. Ychwanegodd, fel rhan o ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i ddatblygu system gofal cenedlaethol, bod y Fforwm yn gweithio tuag at sefydlu system ar gyfer bargeinio cyfunol gwirfoddol erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2023-24.⁶⁸

61. Mae'r ymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Mae £70 miliwn wedi ei ddyrannu i awdurdodau lleol at y diben hwn, a dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn olrhain yr arian hwnnw er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei wario yn unol â'r bwriad. Wrth ddweud bod y Cyflog Byw Gwirioneddol yn 'gam pwysig', roedd hi'n cydnabod na fyddai'r codiad i £10.90 yr awr o reidwydd yn datrys prinder gweithwyr gofal.⁶⁹

62. Fe ofynnem i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd y materion penodol o ran denu pobl i weithio ym maes gofal cartref yn ymwneud â thâl yn unig, ynteu a oedd amodau gwaith hefyd yn ffactor. Dywedodd bod cyflogau'n rhan sylweddol o'r mater gan nad oedd cyflogau yn gystadleuol o hyd er gwaethaf y cynnydd o £1 yr awr. Mae ffactorau eraill yn cynnwys anghyfartaledd gyda'r cyflog a'r amodau sydd ar gael i weithwyr cyfatebol y GIG, a materion fel cyfraddau teithio. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £10.1 miliwn i awdurdodau lleol gaffael ceir trydan ar gyfer gweithwyr gofal yn y cartref, ond dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol fod y pwysau sy'n wynebu gofal cartref yn golygu bod rhywfaint o'r cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio i gynyddu'r cyfraddau teithio a sy'n cael eu talu i weithwyr gofal cartref yn lle hynny. Dywedodd bod gwaith hefyd ar gam cynnar i ddatblygu timau amlddisgyblaethol o fewn cymunedau i helpu atal derbyn i'r ysbyty, gan hefyd wella trefniadau gweithio ar gyfer gweithwyr gofal cartref, ond:

⁶⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai](#), Mehefin 2022, argymhellion 12 a 13

⁶⁷ Llywodraeth Cymru, [Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ryddhau cleifion o ysbytai a'i effaith ar lif cleifion drwy ysbytai](#), Gorffennaf 2022

⁶⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 111], 11 Ionawr 2023

⁶⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 39-40 a 46], 11 Ionawr 2023

"...it's at a very early stage really, so we can't talk about them in too great a detail. We are meeting and discussing it now, but we intend to use some of the existing budget to create ways of working in the community, which we hope will tackle all these issues".⁷⁰

63. Dywedodd Albert Heaney wrthym fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i edrych ar fodelu niferoedd gweithwyr cymdeithasol, yn ogystal â gydag awdurdodau lleol i edrych ar ddatblygu eu gweithwyr cymdeithasol eu hunain, er mwyn mynd i'r afael â materion o ran capasiti ar gyfer asesiadau. Dywedodd fod £10 miliwn dros dair blynedd (£4 miliwn o gynnydd) yn cael ei ddarparu ar gyfer bwrsariaethau i weithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant yn ogystal â pharhau â'r grant gweithlu gofal cymdeithasol sy'n werth £45 miliwn.⁷¹

64. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod hi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi poeni'n fawr dros y penderfyniad i roi terfyn ar y cynllun tâl salwch COVID-19 uwch i weithwyr gofal cymdeithasol ym mis Awst 2022, ond nad oedd wedi bod yn bosibl nodi cyllid ar gyfer parhau â'r cynllun ar ôl i gyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddod i ben. Er nad oedd gweithwyr gofal cymdeithasol ar eu colled yn fwy yn awr nag yr oeddent cyn y cyfnod COVID mewn gwirionedd, dywedodd bod y Fforwm yn edrych ar faterion yn ymwneud â thâl salwch i weithwyr gofal cymdeithasol.⁷²

65. Roedd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cydnabod effaith anghysondebau mewn tâl ar gyfer gweithwyr proffesiynol fel gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig sy'n gweithio o fewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd. Disgrifiodd y bwlch hwn fel un niweidiol iawn, a dywedodd:

"So, in the longer term, when we have a system that is probably integrated, yes, we will, obviously—that is something that I'm sure we will be able to address".⁷³

Gofalwyr di-dâl

66. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi disgrifio'r gyllideb ddrafft fel cyfle a gollwyd i gynorthwyo gofalwyr mewn ffordd fwy cynaliadwy drwy gyflwyno atodiad parhaus i ofalwyr sy'n

⁷⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 71, 75-76], 11 Ionawr 2023

⁷¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 49], 11 Ionawr 2023

⁷² Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 11 Ionawr 2023

⁷³ Cofnod y Trafodion [paragraff 116], 11 Ionawr 2023

derbyn lwfans gofalwyr.⁷⁴ Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol bod £42 miliwn wedi ei gyhoeddi ers Ionawr 2022 i gynorthwyo gofalwyr di-dâl dros y tair blynedd nesaf, yn ogystal â chyfrifoldebau awdurdodau lleol dros asesu anghenion gofalwyr. Tynnodd sylw yn arbennig at:

- Y gronfa cymorth i ofalwyr sy'n werth £4.5 miliwn, sy'n darparu grantiau bach i ofalwyr unigol.
- Taliad untro o £500 yn ychwanegol i'r holl ofalwyr sy'n derbyn lwfans gofalwyr i adlewyrchu'r pwysau ychwanegol maent yn ei wynebu wrth ddarparu gofal hanfodol i'w hanwyliaid.
- Y gronfa seibiant byr sy'n werth £9 miliwn ac sy'n cael ei gweinyddu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, a fyddai'n creu ffyrdd arloesol o roi'r hyn y mae ar y gofalwr ei eisiau a'i angen er mwyn llwyddo i ddal ati i ofalu, yn ôl y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.⁷⁵

67. Dywedodd Albert Heaney wrthym fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu ymchwil i helpu i wella dealltwriaeth o gymorth i ofalwyr di-dâl.⁷⁶

68. Yn ystod ein gwaith ar ryddhau cleifion o ysbytai, dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym ei bod yn poeni bod rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu tanseilio o ganlyniad i'r pwysau sy'n cael ei roi ar ofalwyr di-dâl i ddarparu gofal y tu hwnt i'r hyn roeddent yn fodlon neu'n gallu ei ddarparu.⁷⁷ Yn ei ymateb i'n hadroddiad, dywedodd Llywodraeth Cymru fod Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru wedi nodi bod gofalwyr di-dâl yn faes blaenoriaeth o fewn ei flaengynllun gwaith. Dywedodd hefyd y byddai'n comisiynu adolygiad o safon ac effeithiolrwydd asesiadau anghenion gofalwyr yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.⁷⁸ Ym mis Ionawr 2023, yn yr un modd, cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gynigion ar gyfer ymchwiliad i'r defnydd o asesiadau anghenion a phrosesau cwynion gan ofalwyr di-dâl.⁷⁹

⁷⁴ Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, [Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn ymateb i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24](#), 13 Rhagfyr 2022

⁷⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 94, 97 a 101], 11 Ionawr 2023

⁷⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 105], 11 Ionawr 2023

⁷⁷ [HD39 Gofalwyr Cymru](#)

⁷⁸ Llywodraeth Cymru, [Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ryddhau cleifion o ysbytai a'i effaith ar lif cleifion drwy ysbytai](#), Gorffennaf 2022

⁷⁹ Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, [Rydym yn gwahodd sylwadau ar ymchwiliad arfaethedig i'r defnydd o asesiadau anghenion a phrosesau cwynion gan ofalwyr di-dâl](#), 9 Ionawr 2023

Ein barn ni

69. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod angen buddsoddi yng ngweithlu'r GIG, gan gynnwys cynllun gweithlu strategol. Er ein bod yn cytuno â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn bwysig bod y strategaeth a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn iawn, mae'n destun gofid bod yr amserlenni wedi llithro a bod oedi wedi bod o ran y dogfennau pwysig hyn. Rydym yn nodi barn y Gweinidog bod gan gynllun gweithredu'r gweithlu rôl i'w chwarae o ran gostwng lefel y gwariant ar staff asiantaeth, a byddwn yn disgwyl gweld gwelliannau yn y maes hwn, gan gynnwys canlyniadau trafodaethau ar leihau'r gwariant ar staff asiantaeth.

Argymhelliad 8. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r dadansoddiad y mae wedi ei wneud o'r rhesymau pam mae staff yn dewis gweithio i asiantaethau yn hytrach na'r GIG, egluro pa gamau mae'n eu cymryd i leihau gwariant ar staff asiantaeth, ac ymrwymo i ddarparu diweddariadau bob chwarter blwyddyn i ni ar gynnydd o ran lleihau gwariant. Dylid darparu'r diweddariad chwarterol cyntaf erbyn diwedd mis Mehefin 2023.

70. Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, ac rydym yn derbyn pwynt y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod hwn yn ymrwymiad mawr⁸⁰ gyda rhywfaint o risg cysylltiedig gan fod lefel y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei argymhell yn annibynnol gan y Sefydliad Cyflog Byw yn flynyddol. Rydym hefyd yn cytuno â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol nad yw'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn unig yn ddigon i fynd i'r afael â'r prinder hirsefydlog a chynyddol aciwt yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'n gadarnhaol bod y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gallu cadarnhau y bydd y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn ystyried materion yn ymwneud â thâl salwch. Rydym yn croesawu'r arwydd gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol bod gwaith yn cael ei ddatblygu i gynnwys gweithwyr gofal cartref o fewn timau integredig cymunedol, er nad yw'n glir sut a phryd bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu.

71. Rydym yn nodi barn Grŵp Arbenigol Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar yr angen i symud ymlaen ar fyrder tuag at gydraddoldeb i staff gofal cymdeithasol a'r GIG:

Er bod aliniad cyflog yn cyflwyno goblygiadau cost sylweddol, ym marn y Grŵp Arbenigol, os na symudwn yn gyflym i'r cyfeiriad hwn, mae yna berygl na fydd

⁸⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 67], 11 Ionawr 2023

gwasanaeth gofal yn bod yng Nghymru, p'un a yw'n cael ei ddarparu am ddim yn y fan lle y caiff ei ddarparu ai peidio.⁸¹

72. Ar y sail hon, rydym yn croesawu'r arwydd gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd materion sy'n ymwneud ag anghysondeb cyflog ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd yn cael sylw wrth i ni symud tuag at weledigaeth tymor hwy o wasanaeth gofal cenedlaethol.

73. Rydym yn gwybod bod y Gweinidogion yn deall y brys sydd ynghlwm wrth y materion hyn, ac rydym yn gwerthfawrogi'r heriau o ran bwrw ymlaen â'r materion hyn, yn enwedig mewn sector dameidiog sy'n delio â phwysau sylweddol. Fodd bynnag, nid ydym eto wedi ein perswadio bod gwaith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn cael ei yrru ar y cyflymder sydd ei angen; bod mesurau gwirfoddol ar gyfer bargeinio ar y cyd neu strwythurau cyflog yn ddigonol; neu fod digon o eglurder ynghylch sut bydd argymhellion Grŵp Arbenigol y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn cael eu datblygu i gyflawni uchelgeisiau tymor hwy Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Argymhelliad 9. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i roi diweddariadau bob chwe mis i ni ar: (1) gwaith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a (2) camau a gymerwyd i ddatblygu argymhellion y Grŵp Arbenigol ar ddatblygu gwasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru. Dylid darparu'r diweddariadau cyntaf erbyn diwedd Mehefin 2023.

74. Fel rydym wedi cydnabod yn gyson drwy gydol ein gwaith, heb ofalwyr di-dâl, ni fyddai ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu gweithredu. Mae'r gofal mae gofalwyr di-dâl yn ei ddarparu i ffrindiau ac aelodau o'r teulu yn hanfodol, ac mae'n hollbwysig bod gofalwyr eu hunain yn cael y cymorth maent ei angen i'w galluogi i barhau i ddarparu gofal. Rydym yn croesawu parhad y gronfa gymorth i ofalwyr, a sefydlu'r cynllun seibiant byr. Fodd bynnag, mae'n destun pryder bod rhai canolfannau dydd yn parhau heb ailagor yn dilyn y pandemig, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol i fynd i'r afael â hyn ar frys. Yn ogystal, hoffem ni, yn yr un modd ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, weld cymorth ariannol mwy cynaliadwy, mwy hirdymor, yn cael ei ddarparu i ofalwyr di-dâl.

⁸¹ Grŵp Arbenigol Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, [Tuag at wasanaeth gofal a chymorth cenedlaethol i Gymru: adroddiad y Grŵp Arbenigol](#), Medi 2022

6. Anghydraddoldeb ac annhegwch iechyd

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

75. Nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru⁸² bod y nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015—gan gynnwys Cymru Iachach a Chymru Fwy Cyfartal—yn gyrru ei phenderfyniadau polisi. Mae'n dweud bod y dull hwn yn golygu bod camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cael eu prif ffrydio ar draws ehangder gweithgarwch Llywodraeth Cymru a dyraniadau cyllidebau. Mae'n ychwanegu bod ei ddull 'iechyd ym mhob polisi', sy'n cael ei lywio gan asesiadau effaith ar iechyd, a'i phroses dyrannu cyllideb integredig yn golygu nad yw'n bosibl mesur union ffigurau o gyfanswm dyraniadau cyllideb sy'n gysylltiedig â lleihau anghydraddoldebau iechyd yn unig. Ymhlith y meysydd allweddol o weithgarwch a amlygwyd yn y dystiolaeth mae Dechrau'n Deg a gwaith i fynd i'r afael â gordewdra ac ysmegu.⁸³

76. O ran dyraniadau craidd i fyrdau iechyd, nodir yn y dystiolaeth ysgrifenedig, er nad yw'n bosibl nodi dyraniadau penodol sy'n cael eu cyfeirio at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn unig, mae Fframwaith Cynllunio'r GIG a osodwyd gan Weinidogion yn cadarnhau y dylai gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd fod yn llinyn euraidd drwy gydol Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

77. O ran iechyd meddwl, mae'r dystiolaeth ysgrifenedig yn dangos mai nod Llywodraeth Cymru yw gwella iechyd meddwl a llesiant ledled Cymru drwy gryfhau ffactorau amddiffynnol, a gwella mynediad at wasanaethau cynhwysiant ariannol a gwasanaethau cynghori i gynorthwyo pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl i ganfod cyflogaeth (neu i barhau mewn swydd).

Effaith y gyllideb ar grwpiau a chymunedau penodol

78. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru roi gwybodaeth i ni am effaith cyllideb ddrafft 2023-24 ar grwpiau a chymunedau penodol, gan gynnwys sut roedd wedi ystyried cyllidebu rhywedd wrth baratoi ei chynlluniau gwariant, a pha asesiadau a wnaed ar effaith dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar grwpiau, gan gynnwys menywod a merched, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc, a phobl hŷn.

⁸² Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, 21 Rhagfyr 2022

⁸³ Nodir yn y dystiolaeth bod cyfraddau ysmegu a gordewdra ar y cyfan yn uwch ymhlith grwpiau penodol, gan gynnwys pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a phobl o rai cefndiroedd ethnig lleiafrifol.

79. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Llywodraeth Cymru:

- Mae gwaith modelu o ran iechyd meddwl wedi ystyried effaith anghymesur y pandemig ar grwpiau gan gynnwys pobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac ar blant a phobl ifanc. Wedi hynny, roedd y modelu hwn wedi llywio dyraniadau cyllideb ac ymatebion polisi fel sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i nodi ffyrdd o wella mynediad at ac ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cymunedau Du ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Cafodd y gwaith o ddatblygu'r ymrwymiad Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol ei lywio gan asesiad effaith integredig llawn, gan gynnwys cydraddoldeb a hawliau plant, yn ogystal ag ystyriaeth gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol o'r effaith ar wahanol grwpiau a chymunedau. Gan nodi bod y mwyafrif o weithwyr gofal cymdeithasol yn fenywod dros 40 oed nad ydynt yn annibynnol yn ariannol er eu bod mewn gwaith llawn amser, mae'n ychwanegu bod y polisi yn barod wedi cael:

"...effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb gan fod y cynnydd hefyd yn berthnasol i bob grŵp sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr rhan-amser a grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae pobl â phroblemau iechyd parhaus sydd ar absenoldeb salwch, menywod beichiog (a allai hefyd fod wedi cymryd amser i ffwrdd) a rhieni neu warcheidwaid ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu hefyd wedi derbyn y cynnydd os ydynt mewn swyddi cymwys".

- Yn ogystal, mae'r dystiolaeth yn amlinellu prosiectau peilot penodol o fewn y Rhaglen Drawsnewid ehangach sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo neu wella canlyniadau ar gyfer grwpiau neu gymunedau penodol.⁸⁴

Ein barn ni

80. Rydym yn croesawu cynnwys y gofyniad yn Fframwaith Cynllunio'r GIG bod gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd yn 'edau aur' drwy gynlluniau tymor canolig integredig. Fodd bynnag, ni fyddem eisiau gweld y dull integredig hwn yn rhwystr i nodi canlyniadau penodol a diriaethol y gellir eu defnyddio i asesu'r cynnydd ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, neu y gellir eu defnyddio i dargedu gwariant yn effeithiol.

⁸⁴ Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, 21 Rhagfyr 2022

81. Mae'n bwysig bod unrhyw effaith wahaniaethol mewn dyraniadau cyllid ar wahanol grwpiau a chymunedau yn cael eu hasesu a'u hystyried wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu a phenderfynu ar gynigion cyllido a pholisi. Rydym yn croesawu'r dystiolaeth bod y modelu sy'n sail i gyllid iechyd meddwl a dulliau polisi yn ystyried effaith anghymesur y pandemig ar blant a phobl ifanc, a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Rydym hefyd yn falch bod datblygu'r ymrwymiad Cyflog Byw Gwirioneddol, sy'n flaenoriaeth allweddol o fewn cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, wedi cael ei lywio gan asesiadau effaith.

82. Yn ehangach, rydym yn ymwybodol bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi dweud wrth y Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr 2022 fod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn gwreiddio cyllidebu rhywedd ym mhrosesau Llywodraeth Cymru, a pharhau i ddysgu gan wledydd oedd wedi arwain y ffordd yn hyn o beth. Ychwanegodd, o ran effaith y gyllideb ar bobl o wahanol fracedi incwm, fod asesiad o'r effaith ddsbarthiadol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn parhau i fod yn ddilys.⁸⁵ Rydym yn cefnogi ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru yn hyn o beth, ac yn edrych ymlaen at weld sut mae'r dulliau hyn sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hadlewyrchu yng nghyllidebau drafft y dyfodol.

7. Ailosod ar ôl y pandemig

COVID-19: ymateb parhaus

83. Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi manylion gwariant sy'n gysylltiedig â COVID yn GIG Cymru ar gyfer 2021-22. Mae'n dangos bod cyrff y GIG yng Nghymru wedi gwario £0.85 biliwn net yn ychwanegol oherwydd COVID-19. Mae hynny'n cymharu â £1.14 biliwn yn 2020-21, sy'n £0.29 biliwn o ostyngiad.⁸⁶ Dywed Archwilio Cymru:

"Nid yw'n bosibl dweud faint yn benodol y mae delio â COVID-19 wedi'i gostio wrth i gyllid ar gyfer gweithgarwch y GIG a gafodd ei gwtogi barhau i gael ei ddarparu a'i ail bwrpasu, gyda llawer o staff yn ymgymryd â gweithgareddau newydd mewn ffyrdd newydd".⁸⁷

84. Nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru⁸⁸ bod y dyraniadau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar senario sefydlog COVID lle mae'n bosibl y byddwn yn

⁸⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 14 Rhagfyr 2022

⁸⁶ Dadansoddiad Ymchwil y Senedd gan ddefnyddio [Offeryn Data Cyllid GIG Cymru](#) Archwilio Cymru

⁸⁷ Archwilio Cymru, [Offeryn Data Cyllid GIG Cymru](#) [cyrchwyd Ionawr 2023]

⁸⁸ [Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol](#), 21 Rhagfyr 2022

profi tonnau dilynol o haint COVID ac amrywiolion newydd, ond heb weld pwysau anghynladwy ar y system iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd gwyliadwriaeth yn parhau i lywio polisi a chynllunio, gan gynnwys ar gyfer unrhyw bandemig yn y dyfodol. Yn ogystal, bydd y cyllid sydd ar gael yn sail ar gyfer cynllunio a chamu i fyny i senario brys COVID, ond nid gweithredu na graddfa'r gweithgarwch a fyddai ei angen o dan yr amgylchiadau hynny. Mae hefyd yn darparu rhywfaint o gapasiti o fewn y system diogelu iechyd i ddarparu sgrinio ar gyfer ceiswyr lloches, achosion o glefydau trosglwyddadwy a chynllunio ar gyfer y gaeaf. Mae'r elfennau eraill y darperir ar eu cyfer yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn cynnwys: Rhaglen Adferiad COVID Hir, parhau â'r profion heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ar-lein a ddechreuwyd yn ystod y pandemig, y ganolfan dystiolaeth COVID ar gyfer ymchwil a datblygu, rhaglen frechu COVID (fel rhan o'r rhaglen frechu integredig), a mynediad i staff iechyd a gofal cymdeithasol at raglen cymorth iechyd meddwl a lles Canopi.

85. Nodir yn y dystiolaeth bod y gallu i ystytho ac ymateb o fewn y MEG iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol pe bai cynnydd mewn costau ymateb COVID yn gyfyngedig, sy'n golygu y byddai angen ymateb trawslywodraethol ar unrhyw symudiad i lefel ymateb uwch.

Mynd i'r afael â'r ôl-groniad rhestrau aros

86. Mae'r rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau diagnostig a therapi, a thriniaeth lawfeddygol yng Nghymru, wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig COVID-19. Nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru bod y Gweinidog wedi dweud yn glir y "bydd yn cymryd holl dymor y Senedd i'r GIG adfer ar ôl y pandemig".⁸⁹

87. Ar 26 Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros.⁹⁰ Mae'r cynllun yn cynnwys pum uchelgais allweddol ar gyfer lleihau rhestrau aros.⁹¹ Gofynnem i Lywodraeth Cymru pa asesiad a wnaed o effaith a chanlyniadau'r adnoddau a ddyrannwyd i fynd i'r afael ag amseroedd aros yn 2022-23. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod cyllid wedi ei dargedu ar gyfer mynd i'r afael â rhestrau aros yn 2022-23 wedi cael ei ryddhau cyn lansio'r rhaglen adfer arfaethedig ym mis Ebrill 2022, a'r canlyniad oedd:

"...roedd sefydliadau'n gwneud dewisiadau unigol yn hytrach na chael eu harwain gan y cyfeiriad strategol rydym yn ei ddilyn yn awr. Mae hyn wedi golygu bod

⁸⁹ Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, 21 Rhagfyr 2022

⁹⁰ Llywodraeth Cymru, Trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros y GIG, Ebrill 2022

⁹¹ Bydd adroddiadau monitro tymhorol yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn olrhain cynnydd Llywodraeth Cymru o ran y pum uchelgais allweddol.

cyfleoedd fel gweithio rhanbarthol yn cael eu colli, ond mae rhai cyfleoedd rhanbarthol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, fel diagnosteg ranbarthol".⁹²

88. Yn ystod 2022-23, dyrannwyd £3.4 miliwn o'r gronfa trawsnewid gofal a gynlluniwyd, sy'n werth £15 miliwn, yn chwarter 1 a 2, a disgwylir i gyllid pellach gael ei ryddhau yn ystod chwarteri 3 a 4 yn unol â cherrig milltir prosiect. Ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru cynigir rhai enghreifftiau o effeithiau a nodwyd mewn rhai ardaloedd yn ystod y chwe mis cyntaf,⁹³ ond nodir bod prosiectau eraill yn rhai tymor hirach gyda'r disgwyl na fydd buddion yn cael eu gwireddu yn ystod y cyfnod cychwynnol.⁹⁴

89. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24:

"In relation to the Welsh Government's planned care recovery plan, there continues to be concern over the system's capacity to achieve the ambitious targets that it sets out. Whilst staff are working tirelessly to help patients, there are limiting factors which prevent the effective address of the backlog. This includes capital funding, with the current state of the estate having major implications on the physical capacity of the NHS to make inroads in planned care backlogs, and further support and investment in the workforce".⁹⁵

90. Yn ystod ein sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidogion ar 6 Hydref 2022, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod y targed o ran lleihau arosiadau dwy flynedd i sero erbyn Mawrth 2023 yn dal yn gyraeddadwy, a'i bod hi'n ceisio rhoi pwysau ar y byrddau iechyd i wneud yn siŵr nad ydynt yn rhoi'r gorau i'r nod.⁹⁶ Ond, ym mis Hydref 2022, roedd 15,187 llwybr cleifion o hyd yn aros dros ddwy flynedd. Yn ogystal, roedd 95,074 o lwybrau cleifion yn aros dros 53 wythnos am apwyntiad cyntaf ar gyfer cleifion allanol (uchelgais Llywodraeth Cymru oedd cyrraedd sero erbyn diwedd 2022).⁹⁷

⁹² [Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol](#), 21 Rhagfyr 2022

⁹³ Gan gynnwys llai o atgyfeiriadau cleifion allanol sy'n deillio o brosiectau trawsnewid cleifion allanol, cyfraddau rhyddhau uwch ymhlith cleifion sy'n cael mynediad at y gwasanaeth teledermoscopi o'i gymharu â gwasanaethau traddodiadol wyneb yn wyneb, a dilysu rhestrau aros.

⁹⁴ Gan gynnwys cyflwyno proses gweld ar sail symptomau a llwybrau dilynol a gychwynnir gan y claf.

⁹⁵ Cydffederasiwn GIG Cymru, [Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22](#), Tachwedd 2022

⁹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 154], 6 Hydref 2022

⁹⁷ Ymchwil y Senedd, [Lleihau'r ôl-groniad o ran rhestrau aros y GIG](#), 22 Rhagfyr 2022

91. Mewn tystiolaeth lafar ar 11 Ionawr 2023, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod cynnydd yn cael ei wneud tuag at y targedau, a bod rhestrau aros yn dechrau lleihau am y tro cyntaf. Roedd hi'n cydnabod bod y targedau ychydig yn uchelgeisiol, ond dywedodd bod hyn yn fodd o symbylu'r system i'w cael i ddeall beth sy'n bosibl. Fe wnaeth hi gydnabod hefyd y gallai'r angen i weld achosion brys ar fyrder, ynghyd â phwysau ar wasanaethau, effeithio ar ddarparu gofal sydd wedi ei gynllunio a golygu bod rhai pobl yn parhau i aros am amser hir i gael eu gweld, ond dywedodd ei bod hi a'i thîm yn parhau i annog gwasanaethau i ailffocysu a sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.⁹⁸

Ein barn ni

92. Rydym yn nodi'r rhagdybiaethau ar gyfer senario sefydlog o ran COVID sy'n sail i gyllideb ddrafft 2023-24, a'r arwydd y byddai angen ymateb cyfan gan y llywodraeth ar gyfer unrhyw newid i senario brys COVID. Rydym yn croesawu'r mynediad parhaus at wasanaeth cymorth iechyd meddwl a llesiant Canopi ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol, a byddem yn annog staff i wneud defnydd o'r cymorth sydd ar gael os oes angen iddynt wneud hynny.

93. O ran ôl-groniad yr amseroedd aros, mae'n destun gofid nad oedd amseriad cyllid 2022-23 a chyhoeddi strategaeth Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd, a bod cyfleoedd i ddatblygu gweithio rhanbarthol yn gynharach wedi eu colli o ganlyniad. Fodd bynnag, croesewir y ffaith bod y cyfleoedd hyn yn cael eu dilyn erbyn hyn, er nad yw'r amserlenni cynnydd yn glir eto. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd o ran yr uchelgeisiau a nodir yng nghynllun Llywodraeth Cymru a'r argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad ym mis Ebrill 2022 ar effaith ôl-groniad amseroedd aros ar bobl sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth.⁹⁹

8. Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol

Y cefndir

94. Cyflwynodd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (y Ddeddf) ddwy ddyletswydd ariannol statudol ar fyrddau iechyd: rheoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy (hynny yw, adennill costau) dros gyfnod treigl o dair blynedd; a pharatoi Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd dreigl wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion. Mae **Tabl 1** yn dangos yr alldro blynyddol a adroddwyd ar gyfer pob un o'r tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2022, yn ogystal â'r

⁹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 212], 11 Ionawr 2023

⁹⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, [Aros yn iach? Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru](#), Ebrill 2022

sefyllfa ddiweddaraf yn ystod y flwyddyn a'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn i'r byrddau iechyd yn 2022-23. Mae'n dangos, yn ei grynsyth, bod byrddau iechyd yn cofnodi diffyg yn ystod y flwyddyn hyd yma o bron i £98.6 miliwn a rhagolwg o ddiffyg ar ddiwedd blwyddyn o £159.9 miliwn ar gyfer 2022-23.

Tabl 1 Perfformiad ariannol byrddau iechyd 2019-20 i 2022-23¹⁰⁰

	(Gorwariant) / tanwariant (£ miliwn)				
Bwrdd Iechyd	Alldro hyd yma 2022-23	Rhagolwg o'r alldro ar ddiwedd y flwyddyn 2022-23	Alldro 2021-22	Alldro 2020-21	Alldro 2019-20
Aneurin Bevan	(25.7)	(37.0)	0.2	0.2	0.0
Betsi Cadwaladr	(3.2)	(10.0)	0.3	0.5	(38.7)
Caerdydd a'r Fro	(12.8)	(19.9)	0.2	0.1	0.1
Cwm Taf Morgannwg	(14.6)	(26.5)	0.2	0.1	0.9
Hywel Dda	(34.9)	(59.0)	(25.0)	(24.9)	(34.9)
Powys	(3.7)	(7.5)	0.1	0.1	0.1
Bae Abertawe	(3.7)	0.0	(24.4)	(24.3)	(16.3)
Net (gorwariant) / tanwariant	(98.6)	(159.9)	(48.4)	(48.2)	(88.8)

95. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod byrddau iechyd wedi cael cyllid ychwanegol sylweddol yn 2022-23, gan gynnwys £900 miliwn i dalu costau'r cynnydd mewn galw, codiadau cyflog, costau ynni a'r ymateb parhaus i COVID-19. Dywedodd bod lefelau uchel o alw, pwysau chwyddiant, pecynnau gofal iechyd parhaus, a chostau staffio, gan gynnwys staff asiantaeth, wedi cyfrannu at ddirywiad cydbwysedd ariannol

¹⁰⁰ Paratowyd gan Ymchwil y Senedd o gyfrifon cryno'r GIG a phapurau cyfarfodydd Byrddau a Phwyllgorau'r byrddau iechyd. Alldro a adroddwyd at fis 7 (Hydref 2021) ar gyfer Byrddau Iechyd Aneurin Bevan, Hywel Dda, a Bae Abertawe a mis 6 (Medi) ar gyfer y byrddau iechyd eraill. Mae rhai byrddau iechyd wedi cyflwyno ffigyrau sydd wedi cael eu talgrynnu am i fyny. Ar 14 Gorffennaf 2022, cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu £24.4 miliwn rheolaidd yn ychwanegol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Dywedir yn [rhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru](#) y gwnaed hyn i gydnabod bod y Bwrdd wedi cael ei dangyllido'n sylweddol o ran y fformiwla dyrannu adnoddau o'i gymharu â byrddau eraill.

ar draws byrddau iechyd.¹⁰¹ Nododd fod cymorth tuag at gostau ynni yn 2022-23 wedi ei ddarparu'n rhannol o gyllid a oedd wedi ei ddarparu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond nad oedd ymrwymiad yng nghyllideb 2023-24 mewn cysylltiad â chostau ynni. Dywedodd y byddai hyn yn golygu:

"[Health boards are] going to have to find that money from within their budget, which means, effectively, cuts to NHS budgets, which means that there will have to be a deprioritisation. Unfortunately, there will be areas where I think they'll probably just have to draw back a little bit, maybe on prevention, which is the last thing we want to see, but I'm afraid that's probably the reality of what's likely to happen, and maybe some of the decarbonisation agenda, as well".¹⁰²

96. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ei bod yn disgwyl i bob bwrdd iechyd sicrhau bod arian yn cael ei wario mor effeithlon â phosib. Dywedodd fod Prif Weithredwr GIG Cymru wedi sefydlu grŵp defnyddio adnoddau i yrru'r cynnydd yn y maes hwn.¹⁰³ Dywedodd Nick Wood, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, bod y grŵp yn archwilio cyfleoedd am arbedion mewn meddyginiaethau, gan gynnwys symud cleifion i feddyginiaethau generig pan ddaw cyffuriau oddi ar batent, darparu arweiniad ar draws byrddau iechyd, ac adolygu presgripsiynau pobl. Er nad oedd targed cenedlaethol ar gyfer arbedion ar feddyginiaethau wedi eu gosod eto, dywedodd bod profiad yn awgrymu y gallai'r arbediad fod rhwng 4 a 10 y cant.¹⁰⁴ Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ychwanegu y byddai trawsnewid meddyginiaethau digidol ar gyfer gofal sylfaenol a gofal eilaidd ar waith cyn bo hir, a fyddai'n gwella gwybodaeth a monitro.¹⁰⁵

97. Dywedodd Steve Elliot wrthym fod byrddau iechyd wedi nodi tua £140 miliwn o arbedion yn 2022-23, sy'n gynnydd ar y £115 miliwn a nodwyd yn 2021-22, ond eu bod yn rhagweld diffyg o ryw £30 miliwn o'i gymharu â'r lefelau sydd eu hangen. Wrth grynhoi'r sefyllfa, dywedodd:

"As the Minister said, we've put quite significant amounts of funding into the service this year to support, in terms of core uplifts, obviously, pay increases. We've supported the exceptional costs of energy, as well as, obviously, the ongoing

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 169-172], 11 Ionawr 2023

¹⁰² Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 11 Ionawr 2023

¹⁰³ Cofnod y Trafodion [paragraff 190], 11 Ionawr 2023

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 191-192 a 196 a 200], 11 Ionawr 2023

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 206], 11 Ionawr 2023

response to COVID. So, the ask of the service was then to balance their core financial positions, and, for the reasons the Minister just outlined, to a degree, it's not surprising that health boards are in this position. We're not unique in Wales. I think, in England, the integrated care boards are forecasting something like £800 million, £900 million overspend in England as well. So, it's a reflection, I think, of the fact that over the last two years we've been able to support the significant costs in terms of responding to COVID, but this is very much a transitional year of coming away from that non-recurrent funding and trying to embed back the core financial management approach that we need to get back on top of".¹⁰⁶

98. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidogion nad oedd dirywiad yn sefyllfa ariannol y GIG yn sefyllfa y mae Llywodraeth Cymru yn barod i'w chefnogi na'i gwarantu.¹⁰⁷ Eglurwyd:

"Mae'r tri bwrdd iechyd a gyflwynodd ddiffygion yn eu cynlluniau ariannol wedi cael eu rhoi mewn lefel uwchgyfeirio uwch, ac mae swyddogion a'r Uned Cyflawni Cyllid nawr yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r rhesymau dros eu dirywiad, ac i ddatblygu llyf o gyfleoedd i'w galluogi i weithio tuag at adfer sefydlogrwydd ariannol. Er nad oes unrhyw gamau ffurfiol wedi'u cymryd eto gyda'r tri bwrdd iechyd sydd wedi nodi diffygion yn ystod y flwyddyn, mae swyddogion a'r Uned Cyflawni Ariannol yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn wrth iddynt ddatblygu a gweithredu cynlluniau adfer ariannol".¹⁰⁸

99. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym mewn tystiolaeth lafar bod proses ymyrraeth strwythuredig ar gyfer byrddau iechyd a oedd yn rhagweld gorwario a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt nodi'r rhesymau a nodi sut gallai effeithlonrwydd arwain at arbedion.¹⁰⁹ Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu arian parod i fyrddau iechyd er mwyn eu galluogi i gwrdd â'u rhwymedigaethau ariannol i gyflenwyr, eglurodd Steve Elliot nad oedd hyn gyfystyr â mechnïo sefydliadau nad ydynt yn rheoli eu sefyllfa ariannol graidd, gan na fyddai gorwariant byrddau iechyd yn cael ei ddileu ac na fyddent yn cael arian i dalu am y diffygion. Ychwanegodd, yn ogystal â'r broses ymyriadau a amlinellwyd gan y Gweinidog, ei fod ef ac Uned Cyflawni Ariannol Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd gyda chyfarwyddwyr cyllid

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 173-174], 11 Ionawr 2023

¹⁰⁷ [Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol](#), 21 Rhagfyr 2022

¹⁰⁸ [Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol](#), 21 Rhagfyr 2022

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 176], 11 Ionawr 2023

byrddau iechyd fel rhan o ddull cydweithredol a chefnogol. Dywedodd fod cyfarwyddwyr cyllid yn cydnabod yr angen am raglen waith i ymateb i'r heriau ariannol maent yn eu profi.¹¹⁰

100. Fe ofynnem i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fyddai sicrhau cydbwysedd ariannol yn gofyn am benderfyniadau anodd ar wasanaethau iechyd. Pwysleisiodd Nick Wood bod angen i fyrddau iechyd ystyried sut roedd adnoddau'n cael eu defnyddio. Esboniodd fod y rhaglen chwe nod yn canolbwyntio ar symud i ffwrdd o elfennau cost uchel gwasanaethau, ac yn hytrach ddefnyddio dull integredig sy'n rhychwantu gofal sylfaenol, gofal brys ac argyfwng, rhyddhau, ac atal ar y sail bod cyflawni pob rhan o'r llwybr yn y pen draw yn darparu effeithlonrwydd yn y system. Ychwanegodd y byddai'r gwaith ar y llwybr gorau posibl drwy'r ysbyty a lanswyd ym mis Rhagfyr 2022, a'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal, yn lleihau hyd arhosiad yn yr ysbyty, gydag arbedion ariannol cyfatebol:

"The more we can focus on that within those six priorities, then the more effective the use of resources that we've got is, and then the more investment can go into the recovery of the waiting list, the mental health service et cetera. So, I think, what we've got to get the health boards to look at is how best to deliver each of the different pathways so that we're putting the most effective and the most efficient part of that pathway to the most effective use".¹¹¹

101. Roedd yn cydnabod nad oedd byrddau iechyd wedi cyflawni hyn eto yn 2022-23. Disgrifiodd 2022-23 fel tipyn o flwyddyn bontio, rhwng delio â'r pandemig a'r her mae hynny wedi ei olygu o safbwynt ariannol a gweithredol, a dywedodd fod angen i fyrddau iechyd yn awr ailffocysu ar ddisgyblaeth cyflawni ariannol a gweithredol. Dywedodd wrthym fod cynnydd wedi ei wneud yn barod, er yn arafach nag y byddai wedi ei hoffi, ond y byddai'r blaenoriaethau a nodir yn y canllawiau cynllunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn helpu i yrru cynnydd yn 2023-24.¹¹²

102. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 12 Ionawr 2023, dywedodd David Phillips o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid ei fod o'r farn bod cyfleoedd am effeithlonrwydd o fewn y gwasanaeth iechyd a allai fynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r pwysau cyllidebol. Tynnodd sylw at feysydd posibl lle gellid darparu gwasanaethau iechyd yn fwy effeithlon, gan gynnwys lleihau hyd arosiadau mewn ysbytai—a nododd eu bod yn hirach ar gyfartaledd nag y mae

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 177 ac 184], 11 Ionawr 2023

¹¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 202-204], 11 Ionawr 2023

¹¹² Cofnod y Trafodion [paragraff 208], 11 Ionawr 2023

arosiadau mewn ysbytai yn Lloegr—a chynyddu'r ffocws ar atal, ymyriadau cynnar, iechyd y cyhoedd a mynediad at ofal sylfaenol (gan gynnwys gofal sylfaenol y tu allan i oriau).¹¹³

Ein barn ni

103. Mae'n annerbyniol mai dim ond un bwrdd iechyd sy'n rhagamcanu y bydd yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol yn 2022-23, a bod cynifer o'r byrddau iechyd eraill yn destun mesurau uwchgyfeirio ac ymyriadau. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod y sefyllfa hon yn anghynladwy, a bod yn rhaid i ni weld cydbwysedd ariannol yn dychwelyd.

104. Rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd eleni, ond rydym hefyd yn cydnabod nad yw hwn yn fater newydd. Fel y gwnaethom nodi yn ein hadroddiad ym mis Chwefror 2022 ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23:

"Amlinellodd y Gweinidog a'i swyddogion gynlluniau amrywiol i herio a chefnogi byrddau iechyd sy'n methu'n gyson â gweithredu o fewn eu cyllidebau. Fodd bynnag, mae'r byrddau iechyd hyn wedi bod yn cael eu herio a'u cynorthwyo, gan gynnwys cymorth ariannol ychwanegol sylweddol iawn, a hynny am gyfnod sylweddol. Nid ydym yn hyderus, felly, y bydd y camau gweithredu a ddisgrifiwyd inni yn cyflawni'r newidiadau sylweddol sydd eu hangen i sicrhau bod y byrddau iechyd hynny mewn sefyllfa ariannol gynaliadwy a chytbwys".¹¹⁴

105. Rydym yn cytuno y bydd y canllawiau a ddarperir gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lywio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd yn helpu i ganolbwyntio ar bethau pwysig. Rydym yn croesawu sefydlu'r grŵp defnyddio adnoddau i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a darparu effeithlonrwydd yn gyson. Fodd bynnag, canlyniadau sy'n bwysig, ac amser a ddengys a fydd y mesurau hyn yn ddigon i herio arferion sefydledig a all fod yn arferion aneffeithlon, a sicrhau'r newid sylweddol sy'n ofynnol ym mherfformiad ariannol byrddau iechyd. Mae gennym bryderon hefyd a oes gan Lywodraeth Cymru y capasiti sydd ei angen i weithio'n agos gyda chynifer o fyrddau iechyd i wrthdroi eu sefyllfaoedd.

Argymhelliad 10. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd pellach ynghylch sut bydd yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn cyflawni

¹¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 86-91], 12 Ionawr 2023

¹¹⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23](#), Chwefror 2022

cynaliadwyedd ariannol a'r cydbwysedd o fewn cylch cynllunio tymor canolig integredig 2023-24 i 2025-26. Dylai hyn gynnwys amserlenni clir o ran lle mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd pob bwrdd iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, a sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro.

106. Ym mis Chwefror 2022, wrth ymateb i argymhelliad a wnaethom yn ystod ein gwaith craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Iechyd a Gofal yn gofyn i'r Gweinidog amlinellu pa ddadansoddiad a gynhaliwyd o'r risgiau a'r buddion oedd yn gysylltiedig â rheoleiddio (neu beidio â rheoleiddio) uwch arweinwyr iechyd a rheolwyr yng Nghymru, dywedodd nad oedd ganddi gynlluniau ar gyfer rheoleiddio o'r fath.¹¹⁵ Os nad yw hi'n dymuno mynd ar drywydd rheoleiddio, mae'n bosibl serch hynny y bydd angen iddi ystyried pa fecanweithiau eraill y gall fod eu hangen i sicrhau bod uwch arweinwyr byrddau iechyd yn cael eu dwyn i gyfrif am fethiant parhaus i sicrhau cydbwysedd ariannol a chynaliadwyedd yn unol â dyletswyddau statudol byrddau iechyd.

¹¹⁵ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Chwefror 2022

Atodiad: rhestr o'r argymhellion

Argymhelliad 1. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda byrddau iechyd am chwe blaenoriaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023-24. Dylai'r diweddariad gynnwys unrhyw bryder mae byrddau iechyd wedi ei godi gyda Gweinidogion, yn ogystal â manylion canllawiau pellach mae'r Gweinidogion wedi eu rhoi i fyrddau iechyd ar sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt liniaru unrhyw effaith ganlyniadol ar feysydd eraill. Tudalen 7

Argymhelliad 2. Ar y sail bod disgwyl ar hyn o bryd i benderfyniadau gweinidogol ar y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig gael eu gwneud ym mis Mai neu fis Mehefin 2023, dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atom erbyn diwedd Gorffennaf 2023 i ddarparu crynodeb o sut mae ei chwe blaenoriaeth wedi llywio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig Byrddau Iechyd, a goblygiadau cyllidebol cysylltiedig o ran rhyddhau cyllid neu sicrhau effeithlonrwydd. Tudalen 8

Argymhelliad 3. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau pa mor hir mae hi'n disgwyl i'r canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd ar 30 Rhagfyr 2022 barhau i fod yn weithredol, sef y gall cleifion gael eu rhyddhau wrth aros am asesiad gofal cymdeithasol neu heb i becyn gofal fod yn ei le. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut a phryd y bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y gellir monitro ei effaith ar ddiogelwch cleifion. Tudalen 13

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn argymhell ar y cyd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, yn ei hymatebion i'n hadroddiadau a bob chwe mis wedi hynny, ddarparu data i'r ddau Bwyllgor, wedi eu dadansoddi fesul bwrdd iechyd lleol, yn nodi:

- Amseroedd aros ar gyfer yr apwyntiad cyntaf gyda CAMHS.
- Cyfran y bobl ifanc sy'n cael cynnig ail apwyntiad.
- Yr amseroedd aros ar gyfer ail apwyntiad. Tudalen 15

Argymhelliad 5. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r cerrig milltir a'r amserlenni ar gyfer datblygu gwasanaeth '111 pwyswch 2 ar gyfer iechyd meddwl' a'r camau nesaf tuag at sefydlu uned i gleifion mewnol ar gyfer anhwylderau bwyta yng Nghymru. Tudalen 15

Argymhelliad 6. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru egluro pa rôl sydd gan Weinidogion, Gweithrediaeth y GIG a byrddau iechyd o ran datblygu, darparu ac arwain gweledigaeth tymor hwy ar gyfer trawsnewid gwasanaethau iechyd a buddsoddiadau cyfalaf. Dylai hefyd egluro sut bydd yn sicrhau bod Cynlluniau Tymor Canolig Integredig byrddau iechyd yn cyd-fynd â'r weledigaeth tymor hwy, a bod gweithio rhanbarthol wedi ei wreiddio o'u mewn..... Tudalen 19

Argymhelliad 7. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am sut mae'r cynlluniau ar gyfer dyraniadau cyfalaf yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn alinio â'r chwe blaenoriaeth a amlinellwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chanllawiau ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2023-24. Wrth wneud hynny, dylai nodi pa newidiadau (os o gwbl) a wnaed i ddyraniadau cyfalaf blaenorol neu gynlluniau gwario i adlewyrchu cyflwyno'r chwe blaenoriaeth yn ogystal â'r angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw.... Tudalen 19

Argymhelliad 8. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r dadansoddiad y mae wedi ei wneud o'r rhesymau pam mae staff yn dewis gweithio i asiantaethau yn hytrach na'r GIG, egluro pa gamau mae'n eu cymryd i leihau gwariant ar staff asiantaeth, ac ymrwymo i ddarparu diweddariadau bob chwarter blwyddyn i ni ar gynnydd o ran lleihau gwariant. Dylid darparu'r diweddariad chwarterol cyntaf erbyn diwedd mis Mehefin 2023. Tudalen 26

Argymhelliad 9. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i roi diweddariadau bob chwe mis i ni ar: (1) gwaith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a (2) camau a gymerwyd i ddatblygu argymhellion y Grŵp Arbenigol ar ddatblygu gwasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru. Dylid darparu'r diweddariadau cyntaf erbyn diwedd Mehefin 2023. Tudalen 27

Argymhelliad 10. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd pellach ynghylch sut bydd yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn cyflawni cynaliadwyedd ariannol a'r cydbwysedd o fewn cylch cynllunio tymor canolig integredig 2023-24 i 2025-26. Dylai hyn gynnwys amserlenni clir o ran lle mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd pob bwrdd iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, a sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro..... Tudalen 38